

Cyngor Sir Penfro



ASESIAD LLETY SIPSIWN A THEITHWYR 2019

Diwygiwyd mewn ymateb i
ymholiadau Llywodraeth Cymru ym
mis Rhagfyr 2020 a mis Mawrth 2024



**Parc Cenedlaethol
Arfordir Penfro**

**Pembrokeshire Coast
National Park**

Gan gynnwys Parc Cenedlaethol
Arfordir Penfro

Cymeradwywyd gan Lesley Griffiths, AS / MS, Ysgrifennydd y
Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol,
Llywodraeth Cymru, 24 Mai 2024

Cynnwys

Cyflwyniad	4
Pennod Un: Cyd-destun polisi.....	5
Deddfwriaeth a chanllawiau.....	5
Polisiâu'r Cynllun Datblygu Lleol	6
Diffiniadau o dermau allweddol.....	9
Pennod Dau: Cefndir a dadansoddiad o'r data presennol	11
Canfyddiadau'r Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr blaenorol	11
Data poblogaeth	11
Cyfrif carafanau.....	12
Y ddarpariaeth llety gyfredol	13
Safleoedd preswyl yr Awdurdod Lleol	13
Safleoedd awdurdodedig preifat.....	13
Safleoedd diawdurdod yn destun apêl cynllunio.....	14
Pennod Tri: Methodoleg.....	16
Cyfansoddiad grŵp llywio'r prosiect.....	16
Methodoleg yr astudiaeth	16
Ymgysylltu ag Awdurdodau Lleol eraill.....	16
Atal cyfyngiadau rhag ymgysylltu ag ymatebwyr	17
Pryd y cynhaliwyd yr arolwg	19
Pwy gynhaliodd yr arolwg	19
Cyfweliadau ar y safle: y dull a fabwysiadwyd.....	20
Rhestr wirio ymgysylltu	20
Newidiadau i'r holiadur cyffredinol.....	21
Pennod Pedwar: Canfyddiadau'r arolwg	22
Cyfweliadau ag aelwydydd	22
Nifer yr aelwydydd wedi'u dadansoddi yn ôl math o lety.....	22
Nifer yr aelwydydd wedi'u dadansoddi yn ôl ethnigrwydd.....	23
Anawsterau a gafwyd wrth geisio cael gafael ar aelwydydd	25
Proffil demograffig y boblogaeth	26
Addasrwydd llety presennol.....	28
Lefelau bodlonrwydd a grybwyllwyd.....	28
Gorlenwi	29
Gwelliannau neu newidiadau sy'n ofynnol.....	29
Potensial ar gyfer datblygiadau safle preifat	Error! Bookmark not defined.

Twf aelwydydd.....	Error! Bookmark not defined.
Pennod Pump: Asesu anghenion llety.....	Error! Bookmark not defined.
Angen preswyl heb ei ddiwallu	Error! Bookmark not defined.
Y cyflenwad preswyl presennol ac a gynlluniwyd	Error! Bookmark not defined.
Galw preswyl nawr ac yn y dyfodol	Error! Bookmark not defined.
Tabl anghenion	Error! Bookmark not defined.
Angen tramwyl heb ei ddiwallu	Error! Bookmark not defined.
Canfyddiadau'r arolwg	Error! Bookmark not defined.
Rhagor o dystiolaeth	Error! Bookmark not defined.
Pennod Chwech: Casgliadau ac argymhellion	Error! Bookmark not defined.
Camau nesaf.....	Error! Bookmark not defined.
Atodiad 1 : Cwestiynau Ychwanegol yr Arolwg.....	Error! Bookmark not defined.
Atodiad 2: Deunyddiau cyhoedduswydd	Error! Bookmark not defined.
Atodiad 3: Tabl 4.6 Dyheadau Llety Aelwydydd – anghenion a ffafriaeth a nodwyd.	Error! Bookmark not defined.
Atodiad 4: Cofnod o'r cyfweiliadau	Error! Bookmark not defined.

Cyflwyniad

Mae'n bleser gennym gyflwyno ail Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr (GTAA) Sir Benfro a gynhaliwyd ers cyflwyno Deddf Tai (Cymru) 2014.

Rydym yn falch bod yr asesiad hwn wedi'i gynnal gyda chyfranogiad grwpiau sy'n gweithio gyda'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr, a chynrychiolwyr o'r gymuned honno. Hoffem ddiolch i bawb a fu'n rhan o'r grŵp llywio am eu cyfranogiad a'u hegni.

Yn sgil y lefelau ymateb da iawn i'r arolwg gan y gymuned, bu modd cynnal asesiad cadarn.

Mae Cyngor Sir Penfro wedi ymrwymo i ddefnyddio'r asesiad i ddatblygu'r gwaith parhaus a wneir i ddiwallu anghenion llety'r gymuned.

Edrychwn ymlaen at barhau i gymryd rhan yn y gwaith hwn yn Aelodau Cabinet dros Gynllunio a Thai.

Y Cyng. Jon Harvey

Aelod Cabinet dros Gynllunio a Chyflenwi Tai

Y Cyng. Michelle Bateman

Aelod Cabinet dros Weithrediadau Tai a Gwasanaethau Rheoleiddio

Awst 2019



Pennod Un: Cyd-destun polisi

Deddfwriaeth a chanllawiau

- 1.1 Mae '[Galluogi Sipsiwn, Roma a Theithwyr](#)' (Mehefin 2018) gan Lywodraeth Cymru yn disodli 'Teithio at Ddyfodol Gwell' ([2014](#)) ac yn nodi gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer cynnwys y cymunedau hyn yng nghymdeithas Cymru.
- 1.2 Mae '[Galluogi Sipsiwn, Roma a Theithwyr](#)' yn cynnwys ymrwymiad Llywodraeth Cymru i weithio gydag Awdurdodau Lleol i ddarparu safleoedd newydd i Sipsiwn a Theithwyr. Daeth yr asesiad o anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr, a'r ddyletswydd i ddarparu safleoedd lle mae'r asesiad yn nodi angen, yn ofynion statudol o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014, tra bydd [Grant Cyfalaf Safleoedd Llywodraeth Cymru](#) yn helpu i ddarparu buddsoddiad mewn safleoedd Cyngor.
- 1.3 O dan adran 106 o Ddeddf 2014 cyhoeddwyd '[Canllawiau Cynnal Aseidiadau o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr](#)' gan Lywodraeth Cymru i gynorthwyo Awdurdodau Lleol i lunio asesiad cadarn o anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr yn eu hardal. Cynhyrwyd y GTAA hwn yn unol â'r canllawiau. Rhaid cynnal GTAA newydd o leiaf bob 5 mlynedd. Bydd y GTAA hwn yn diweddarau canfyddiadau GTAA 2015, ac mae'n cael ei gynnal yn 2019 i ddarparu sail dystiolaeth gadarn i adolygiad y Cynllun Datblygu Lleol.
- 1.4 Mae deddfwriaeth a chanllawiau eraill sy'n ymwneud â darparu safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yn cynnwys:
 - [Deddf Cartrefi Symudol \(Cymru\) 2013](#) sy'n darparu mesurau diogelu ychwanegol i'r rhai sy'n byw ar safleoedd Sipsiwn a Theithwyr Awdurdod Lleol ac yn eu cynnal.
 - [Cylchlythyr Llywodraeth Cymru 005/2018 'Cynllunio ar gyfer Safleoedd Sipsiwn, Theithwyr a Siewmyn'](#) a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2018 ac sy'n darparu canllawiau wedi'u diweddarau ar yr agweddau cynllunio ar nodi safleoedd cynaliadwy ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr a sut y gall Awdurdodau Cynllunio a Sipsiwn a Theithwyr gydweithio i gyrraedd y nod hwn. Mae'n disodli Cylchlythyrau 30/2007, 78/91 a 76/94. Mae [Canllawiau Dylunio Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr](#) Llywodraeth Cymru yn rhoi cyngor ymarferol i gynorthwyo Awdurdodau Lleol i sicrhau bod eu safleoedd yn addas i'r diben. Bydd dilyn y canllawiau hyn yn helpu Awdurdodau Lleol ac eraill i ddatblygu a gwella safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yn eu hardal, a bydd yn rhan o ystyriaeth Llywodraeth Cymru wrth asesu ceisiadau am gyllid Grant Cyfalaf Safleoedd mewn perthynas â safleoedd Sipsiwn a Theithwyr.
- 1.5 Ar ôl i'r GTAA gael ei gymeradwyo gan Weinidogion Cymru, mae dyletswydd gyfreithiol ar Awdurdodau Lleol i arfer eu swyddogaethau i ddarparu lleiniau cartrefi symudol i ddiwallu'r anghenion a nodwyd. Gallant wneud hyn mewn amryw o ffyrdd - drwy ddarparu safleoedd Sipsiwn a Theithwyr Awdurdod Lleol, cefnogi aelwydydd i ddatblygu safleoedd preifat hyfyw a chefnogi aelwydydd i ddatblygu dulliau hyfyw dan arweiniad y gymuned fel Ymddiriedolaethau Tir Cymunedol.
- 1.6 Os bydd y Cyngor yn ceisio datblygu lleiniau neu safleoedd ychwanegol, gall wneud cais am Grant Cyfalaf Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr Llywodraeth Cymru sydd ar hyn o bryd yn darparu £3.5 miliwn y flwyddyn at ddibenion adnewyddu a datblygu safleoedd. Yr

uchafswm sydd ar gael fesul safle yw £1.5 miliwn a blaenoriaethir cynlluniau sy'n darparu lleiniau ychwanegol. Nid oes sicrwydd y bydd cais am gyllid yn llwyddiannus. Mae Cyngor Sir Penfro wedi cael £1.42m o grant i gynorthwyo i ddarparu estyniad i safle Sipsiwn a Theithwyr Tir Comin Kingsmoor Cilgeti.

Polisiau'r Cynllun Datblygu Lleol

- 1.7 Mae gan Sir Benfro ddau Awdurdod Cynllunio Lleol - Cyngor Sir Penfro (CSP) ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (APCAP). Mae'r ddau awdurdod wedi mabwysiadu Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLI). Mae'r ddau CDLI yn cael eu hadolygu.
- 1.8 Cynhaliwyd Archwiliad CDLI newydd APCAP yn gyhoeddus ym mis Gorffennaf 2019. Mae adolygiad CDLI CSP ar y gweill a rhagwelir cyhoeddi'r Cynllun wedi'i Adneuo ar gyfer ymgyngoriad ar ddiwedd 2019.
- 1.9 Mae gan CSP ddau bolisi yn y CDLI sy'n cyfeirio at ddatblygiad Sipsiwn a Theithwyr: Polisi GN.31 sy'n dyrannu tir ar gyfer llety Sipsiwn a Theithwyr, a Pholisi GN.32 sy'n nodi'r meini prawf a ddefnyddir i benderfynu ar geisiadau cynllunio ar gyfer safleoedd newydd neu estyniadau i safleoedd presennol y tu allan i ffiniau aneddiadau. Mae gan APCAP un polisi sy'n berthnasol i ddatblygiad Sipsiwn a Theithwyr, sef Polisi 46 sy'n nodi'r meini prawf a ddefnyddir i benderfynu ar geisiadau cynllunio ar gyfer safleoedd newydd. Mae'r cynllun hwn yn cael ei adolygu, bu'n destun Archwiliad a disgwylir adroddiad yr Arolygydd. Mae'r polisiau wedi'u cynnwys yn ffigurau 1.1, 1.2 ac 1.3 isod:

Ffigur 1.1: CDLI Cyngor Sir Penfro, Polisi GN.31 Dyrannu Safleoedd a Lleiniau Sipsiwn a Theithwyr

GN.31 Polisi Safleoedd a Lleiniau Sipsiwn-Teithwyr			
Mae tir wedi'i ddyrannu ar gyfer llety ychwanegol i sipsiwn-teithwyr yn:			
Cyfeirnod y Safle	Enw Safle	Arwynebedd (ha)	Nifer ddangosol o leiniau
GT/095/001	Chwarel Catshole (Castell)	0.39	8
GT/050/001	Comin Kingsmoor Cilgeti	0.78	15

Ffigur 1.2: CDLI Cyngor Sir Penfro, Polisi GN.32 Lleiniau Sipsiwn a Theithwyr

GN.32 Safleoedd a Lleiniau Sipsiwn-Teithwyr

Y Tu Allan i Ffiniau Anheddiad ni chaniateir cynigion ar gyfer safleoedd sipsiwn newydd parhaol neu dros dro neu estyniadau i'r safleoedd awdurdodedig presennol oni bai fod modd dangos:

1. Na does modd l'r datblygiad arfaethedig ar safleoedd awdurdodedig presennol ac mae l ddiwallu'r angen sy'n digwydd yn lleol neu anghenion teuluoedd â chysylltiad lleol;
2. Yn hygyrch l wasanaethau cymunedol, cymdeithasol ac addysgol presennol a chyfleusterau eraill; ac
3. Ei fod wedi ei leoli'n sensitive yn y dirwedd a bod tirlunio boddhaol wedi ei ddarparu

Ffigur 1.3: CDLII Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro: Polisi 46 Safleoedd Sipsiwn, CDLI2: Polisi 5I Safleoedd Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn (yn y Cyflwyniad i'r Arolygydd, 2019)

Polisi 46 Safleoedd Sipsiwn

Caniateir cynigion ar gyfer safleoedd Sipsiwn a Theithwyr ble:

- a) bod tystiolaeth o angen i leoli neu ddarparu trefniadau dros dro yn yr ardal wedi'i nodi; a
- b) bod y safle mewn lleoliad da i wasanaethu anghenion Sipsiwn a Theithwyr gan gynnwys yr angen i gael mynediad at wasanaethau lleol; a
- c) bod gan y safle fynediad da i ffordd gyhoeddus sy'n ddiogel ac yn uniongyrchol; a
- d) bod y safle'n addas ar gyfer y datblygiad ac y gellir darparu cyfleusterau gwasanaethau ar y safle yn ddigonol; a
- e) eir i'r afael yn ddigonol â materion amwynder ar gyfer trigolion y safle ac eiddo cyfagos; a
- f) nad yw'r cynnig yn achosi ymwithiad gweledol sylweddol, ei fod wedi'i leoli'n sensitif yn y dirwedd a bod tirweddu boddhaol yn cael ei ddarparu.

Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr a Siewmyn

Polisi 51 Safleoedd Sipsiwn-Teithwyr a Siewmyn

Caniateir cynigion ar gyfer safleoedd Sipsiwn-Teithwyr a Siewmyn ble:

- a) ♣Bod yr ymgeisydd wedi dangos nad oes unrhyw leiniau addas ar gael o fewn safleoedd awdurdodedig presennol neu dir sydd ar gael o fewn terfynau aneddiadau presennol♣; a
- b) bod y safle mewn lleoliad da i wasanaethu anghenion Sipsiwn a Theithwyr neu Siewmyn gan gynnwys yr angen i gael mynediad at wasanaethau lleol; a
- c) bod gan y safle fynediad da i ffordd gyhoeddus sy'n ddiogel ac yn uniongyrchol; a
- d) bod y safle'n addas ar gyfer y datblygiad ac y gellir mynd i'r afael yn ddigonol â gwasanaethau ► a ◀chyfleusterau ar y safle; a
- e) eir i'r afael yn ddigonol â materion amwynder ar gyfer trigolion y safle ac eiddo cyfagos; a
- f) nad yw'r cynnig yn achosi ymwithiad gweledol sylweddol, ei fod wedi'i leoli'n sensitif yn y dirwedd a bod tirweddau boddhaol yn cael ei ddarparu.

1

¹ ♣ a ►◀ yn nodi newidiadau a gynigiwyd ers y Cynllun wedi'i Adneuo

Diffiniadau o dermau allweddol

1.10 Mae'r tabl canlynol yn rhoi diffiniadau o dermau allweddol yn yr adroddiad hwn.

Tabl 1.1: Diffiniadau o dermau allweddol (yn parhau drosodd)

Sipsiwn a Theithwyr	<p>(a) Personau sy'n arfer ffordd grwydrol o fyw, beth bynnag fo'u hil neu darddiad, gan gynnwys:</p> <p>(1) Personau sydd, ar sail eu hanghenion addysgol neu iechyd neu henaint eu hunain neu rai eu teulu neu eu dibynnyddion yn unig, wedi peidio â theithio dros dro neu'n barhaol, ac</p> <p>(2) Aelodau grŵp trefnedig o siewmyn neu bobl syrcais deithiol (p'un a ydynt yn teithio gyda'i gilydd fel y cyfryw ai peidio); a</p> <p>(b) Pob person arall sydd â thraddodiad diwylliannol o nomadiaeth neu o fyw mewn cartref symudol. Ffynhonnell: Adran 108, Deddf Tai (Cymru) 2014</p>
Safle preswyl	<p>Gall safle preswyl parhaol fod yn eiddo preifat neu'n eiddo i'r Awdurdod Lleol. Bydd y safle hwn yn cael ei ddynodi i'w ddefnyddio fel safle Sipsiwn a Theithwyr am gyfnod amhenodol. Gall preswylwyr ar y safleoedd hyn ddisgwyl meddiannu eu lleiniau cyhyd â'u bod yn cadw at delerau eu cytundebau llain, o dan Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013.</p> <p>Gellir darparu man gwaith hefyd ar safleoedd neu'n agos atynt, ar gyfer gweithgareddau a gynhelir gan aelodau'r gymuned.</p>
Safle preswyl dros dro	<p>Mae'r safleoedd hyn yn safleoedd preswyl sydd â chaniatâd cynllunio neu drwydded safle am gyfnod cyfyngedig yn unig. Gall preswylwyr ar y safleoedd hyn ddisgwyl meddiannu eu lleiniau drwy gydol y caniatâd cynllunio neu'r drwydded safle (cyhyd â'u bod yn cadw at delerau eu cytundebau llain, o dan Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 – p'un bynnag sydd gynharaf).</p>
Safle tramwy	<p>Mae safleoedd tramwy yn gyfleusterau parhaol a ddyluniwyd at ddefnydd dros dro gan feddianwyr. Rhaid i'r safleoedd hyn gael eu dynodi felly, a darparu llwybr i Sipsiwn a Theithwyr gynnal ffordd grwydrol o fyw. Caniateir i ddeiliaid unigol breswylwyr ar y safle am dri mis ar y mwyaf ar y tro.</p> <p>Mae telerau penodol o dan Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 yn berthnasol ar y safleoedd hyn. Gellir darparu man gwaith hefyd ar safleoedd neu'n agos atynt, ar gyfer gweithgareddau a gynhelir gan aelodau'r gymuned.</p>
Man Aros Dros Dro	<p>Fe'i gelwir hefyd yn 'fan aros', 'Atchin Tan', neu 'lôn werdd', ymhlith enwau eraill. Bwriedir i'r rhain fod yn fannau tymor byr i gynorthwyo Awdurdodau Lleol lle derbynnir bod angen lleiniau ond nad oes rhai ar gael ar hyn o bryd. Gellir defnyddio mannau aros dros dro a nodwyd yn rhagweithiol i adleoli gwerylloedd sydd mewn mannau amhriodol, tra bod safleoedd eraill yn cael eu datblygu.</p> <p>Rhaid i fannau aros dros dro wneud darpariaeth ar gyfer gwaredu gwastraff, cyflenwi dŵr a glanweithdra o leiaf.</p>
Llain breswyl	<p>Tir ar safle cartrefi symudol lle mae gan feddianwyr yr hawl i osod eu cartrefi symudol am gyfnod amhenodol (oni nodir yn eu cytundeb llain). Fel arfer mae'n cynnwys bloc amwynder, lle ar gyfer carafán statig a charafán deithiol a pharcio.</p>
Llain dramwy	<p>Tir ar safle cartrefi symudol lle mae gan feddianwyr yr hawl i osod eu cartrefi symudol am dri mis ar y mwyaf. Gall lleiniau tramwy fodoli ar safleoedd preswyl parhaol, ond nid yw hyn yn cael ei argymhell.</p>
Gwersyll diawdurdod	<p>Tir a feddiannir heb ganiatâd y perchennog neu heb y caniatâd cynllunio defnydd tir cywir. Gall yr Awdurdod Lleol oddef gwersylloedd tra bod safleoedd eraill yn cael eu datblygu.</p>
Datblygiad diawdurdod	<p>Tir a feddiannwyd gan y perchennog heb y caniatâd cynllunio defnydd tir angenrheidiol.</p>
Cyflenwad preswyl presennol	<p>Nifer y lleiniau awdurdodedig sydd ar gael ac sydd wedi'u meddiannu o fewn ardal yr Awdurdod Lleol neu'r bartneriaeth. Mae hyn yn cynnwys lleiniau ar safleoedd yr Awdurdod Lleol neu rai preifat.</p>

Y galw preswyl presennol	Y rhai y mae angen lleiniau awdurdodedig arnynt am amrywiaeth o resymau, gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • anallu i sicrhau llain awdurdodedig gan arwain at feddiannu gwersylloedd diawdurdod; • anallu i sicrhau caniatâd cynllunio cywir ar gyfer datblygiad diawdurdod; • aelwydydd sy'n byw mewn amodau gorlawn ac y mae eisiau llain arnynt; • aelwydydd mewn tai confensiynol sy'n dangos gwrthnawsedd diwylliannol; • aelwydydd newydd y mae disgwyl iddynt gyrraedd o rywle arall.
Y galw preswyl yn y dyfodol	Y lefel ddisgwyliedig o ffurfio aelwydydd newydd a fydd yn cynhyrchu galw ychwanegol o fewn cyfnod 5 mlynedd yr asesiad llety a chyfnod hirach y CDLI.
Yr angen cyffredinol am leiniau preswyl	Y cyfrifiad eithaf o angen llety heb ei ddiwallu y mae'n rhaid ei nodi drwy'r broses asesu llety Sipsiwn a Theithwyr. Gellir dod o hyd i'r ffigur hwn drwy ychwanegu'r angen preswyl uniongyrchol at y galw preswyl yn y dyfodol. Bydd yr angen preswyl cyffredinol yn crisialu'r anghenion dros y cyfnod o 5 mlynedd yr ystyrir bod yr asesiad llety'n gadarn ynddo.
Cyflenwad lleiniau preswyl a gynlluniwyd	Nifer y lleiniau awdurdodedig sy'n wag ac sydd ar gael i'w rhentu ar safleoedd yr Awdurdod Lleol neu safleoedd preifat. Mae hefyd yn cynnwys lleiniau a fydd yn cael eu gadael yn y dyfodol agos gan aelwydydd sy'n symud i dai confensiynol neu mewn amgylchiadau eraill. Dylid cynnwys lleiniau ychwanegol sydd ar fin agor neu safleoedd preifat sy'n debygol o gael caniatâd cynllunio yn fuan fel cyflenwad preswyl a gynlluniwyd.
Aelwyd	Mae hyn yn cyfeirio at unigolion o'r un teulu sy'n byw gyda'i gilydd mewn un llain / tŷ / gwersyll.
Aelwyd gudd neu 'sy'n rhannu'	Mae hyn yn cyfeirio at aelwydydd sy'n methu sicrhau eu llety awdurdodedig eu hunain ac sy'n byw yn hytrach mewn llety diawdurdod (tai neu leiniau) a neilltuwyd i aelwyd arall. Gall hyn gynnwys plant sy'n oedolion nad ydynt wedi gallu symud cartref neu wahanol aelwydydd sy'n meddiannu un llain.
Twf aelwydydd	Diffinnir twf aelwydydd gan nifer yr aelwydydd newydd sy'n deillio o aelwydydd sydd eisoes yn cael llety yn yr ardal.

Pennod 2: Cefndir a dadansoddiad o'r data presennol

Canfyddiadau'r Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr blaenorol

- 2.1 Nododd y GTAA diweddaraf (2015) fod angen 32 o leiniau preswyl yn Sir Benfro erbyn diwedd 2020 ynghyd â dwy iard siewmyn teithiol erbyn diwedd 2020. Nodwyd angen arall heb ei ddiwallu am bum llain breswyl hyd at ddiwedd 2021, a 64 llain ychwanegol hyd at ddiwedd 2031 hefyd.
- 2.2 Cafodd tair llain ychwanegol ganiatâd cynllunio yn ystod y cyfnod rhwng mis Ebrill 2014 a mis Mawrth 2015.² Mae 31 o leiniau eraill wedi cael caniatâd cynllunio ers mis Tachwedd 2015. Rhoddwyd caniatâd cynllunio i 55 o leiniau i gyd yn Sir Benfro ers llunio'r GTAA cyntaf yn 2010.

Data poblogaeth

- 2.3 Wrth baratoi ar gyfer y GTAA hwn defnyddiwyd nifer o ffynonellau data i nodi nifer a lleoliad aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr yn Sir Benfro.
- 2.4 Dangosodd Cyfrifiad 2011 y nifer ganlynol o aelwydydd a ddadansoddwyd yn ôl math o lety yn Sir Benfro:

Tabl 2.1: Data aelwydydd y Cyfrifiad

Math o lety	Nifer yr aelwydydd
Tŷ neu fyngalo	75
Fflat, fflat deulawr neu randy	14
Carafán neu strwythur symudol neu dros dro arall	62
<i>Pob un</i>	<i>151</i>

- 2.5 Dengys yr wybodaeth isod yn 'y *Ddarpariaeth Llety Gyfredol*' fod nifer y lleiniau sydd wedi'u meddiannu ym mherchnogaeth yr Awdurdod Lleol ac mewn perchnogaeth breifat yn fwy na ffigur data'r Cyfrifiad. Gall un llain hefyd gael ei meddiannu gan fwy nag un aelwyd; felly byddai'n ymddangos nad yw'r Cyfrifiad yn adlewyrchu'n gywir gyfanswm yr aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr sy'n byw mewn carafanau.
- 2.6 Mae'n anoddach asesu'r data ar y rhai sy'n byw mewn llety 'brics a mortar' o ran ei gywirdeb. Nodwyd bod 95³ o aelwydydd yn byw mewn llety brics a mortar o'r GTAA blaenorol, o restr aros am leiniau'r Awdurdod, o awgrymiadau gan y gymuned Sipsiwn a Theithwyr, a thrwy asiantaethau sy'n darparu cymorth. O'r rhain, cwblhawyd 33 arolwg.

² Ffynhonnell: Adroddiad Monitro Blynyddol 2 Cyngor Sir Penfro – 2014-2015

³ Mae rhai o'r aelwydydd hyn y tu allan i Sir Benfro


O'r arolygon a oedd yn aflwyddiannus, dywedodd 30 o aelwydydd nad oeddent yn dod o'r Gymuned Sipsiwn a Theithwyr a chawsant eu heithrio wedyn o'r arolwg.

- 2.7 Dengys y rhestr aros am leiniau gwag ar safleoedd a reolir gan yr Awdurdod Lleol fod 36 o ymgeiswyr i gyd, a 16 ohonynt mewn llety 'bricks a mortar' ar hyn o bryd. Cysylltwyd â'r holl gyfeiriadau ar y rhestr aros am leiniau gwag fel rhan o'r GTAA i ganfod a oedd angen arnynt ai peidio.

Cyfrif carafanau

- 2.8 Cynhelir Arolygon Cyfrif Carafanau bob mis Ionawr a mis Gorffennaf gan y Cyngor, cyn cyflwyno'r wybodaeth i Lywodraeth Cymru. Roedd y ffurflen ystadegol ddiweddaraf a gyhoeddwyd (Ionawr 2019) yn nodi cyfanswm o 140 o garafanau ar safleoedd awdurdodedig a dwy garafán ar safleoedd diawdurdod. Yng Nghymru, yn Sir Benfro y mae'r ail nifer fwyaf o garafanau, ar ôl Caerdydd.
- 2.9 Mae'r graff isod yn dangos nifer y carafanau ar safleoedd rhwng 2010 a 2019. Er mwyn sicrhau cysondeb, dangosir ffigurau mis Ionawr ar gyfer pob blwyddyn. Dengys y data ostyngiad cyffredinol yn nifer y carafanau ar safleoedd awdurdodedig o 156 yn 2015 i 140 yn 2019, ond mae'n parhau i fod yn gyson â'r lefelau ers 2010.


Ffigur 2.1: Data Cyfrif Carafanau Sir Benfro – Nifer y Carafanau 2010-2019



Ffynhonnell: Datganiadau Cyfrif Carafanau Llywodraeth Cymru (2010-2019)

- 2.10 Dengys y graff canlynol nifer y safleoedd awdurdodedig yn Sir Benfro rhwng 2010 a 2019. Mae nifer y safleoedd awdurdodedig wedi cynyddu o saith i ddau ar hugain dros y cyfnod hwn.

Ffigur 2.2: Data Cyfrif Carafanau Sir Benfro; Nifer y Safleoedd 2010 – 2019



Ffynhonnell: Datganiadau Cyfrif Carafanau Llywodraeth Cymru (2010- Ionawr 2019)

Y ddarpariaeth llety gyfredol

Safleoedd preswyl yr Awdurdod Lleol

2.11 Mae 74 o leiniau preswyl ar draws pum safle preswyl presennol a gynhelir gan yr Awdurdod Lleol yn Sir Benfro, a'r rheini yn y manau canlynol:

- Llwynhelyg, ger Hwlfordd
- Under the Hills, Pont Fadlen, Hwlfordd
- Chwarel y Castell, Cil-maen, Penfro
- Waterloo, Doc Penfro⁴
- Kingsmoor, Comin Kingsmoor, Cilgeti

2.12 Mae llain dramwy ychwanegol ar safle Under the Hills.

Safleoedd awdurdodedig preifat

2.13 Mae 16 o safleoedd preifat yn Sir Benfro sydd â chaniatâd cynllunio, a'r rheini yn:

- Summer Place, Broadmoor
- Freestone Meadow, Teagues Cross, ger Caeriw⁵

⁴ Mae'r Cyngor yn bwriadu cau'r safle hwn yn ffurfiol ac mae'r rhan fwyaf o breswylwyr wedi'u symud i lety arall. Mae un teulu ar y safle o hyd adeg ysgrifennu.

⁵ O fewn Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro.

- Spring Bank Stables, ger East Williamston⁶
- Biggins Hill, ger Aberdaugleddau (caniatwyd dwy lain ychwanegol ym mis Awst 2017)
- Maiden Place, Maidenwells (caniatâd ar gyfer un llain ym mis Hydref 2017)
- Strawberry Fields, ger Saundersfoot
- Romany Way, Cil-maen (tir wrth ymyl Adams Road, Cil-maen)
- Molleston Stables, Molleston
- Southlands, Cilgeti (caniatwyd dwy lain ychwanegol ym mis Chwefror 2016)
- Tir i'r de o fferm Pincheston, ger Caeriw⁷
- Pine View Lodge, ger Cosheston (caniatwyd tair llain ychwanegol ym mis Mawrth 2017)
- Con Lay, ger Penfro
- Broadmoor Nurseries, Broadmoor
- Long Meadow, wrth ymyl Adams Road, Cil-maen
- Flimston Court, Hundleton
- Bonwils Field, Treletert

2.14 Rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer safle newydd ger Maes y Pentref, Hundleton ar gyfer un llain ym mis Ebrill 2016, rhoddwyd Tystysgrif Cyfreithlondeb i bedair llain yn Broadmoor Farm Nurseries ym mis Ebrill 2016, a chaniatwyd un llain yn Nhreletert ym mis Rhagfyr 2018. Caniatwyd defnydd tir ar gyfer iard Siewmyn Teithiol ym mis Medi 2018 yn Portfield Gate. Nid yw'r safleoedd hyn wedi'u cyflwyno eto.

2.15 Ar adeg yr arolwg nodwyd un gwerysll diawdurdod ac un datblygiad diawdurdod (dwy aelwyd) yn ardal Hwlfordd/Portfield Gate. Mae'r datblygiad diawdurdod, sydd ar gyfer iard siewmyn, yn cael ei oddef gan yr Awdurdod.

2.16 Mae gan safle Chwarel y Castell aelwyd mewn gwerysllloedd diawdurdod sy'n cael eu goddef wrth ei ymyl, lle mae aelodau'r gymuned wedi cytuno i rentu'r tir oddi ar y tiffeddiannwr cyfagos. Ar hyn o bryd, mae carafán deithiol ychwanegol sy'n cynnwys un aelwyd yn golygu gwerysll diawdurdod pellach ar yr estyniad i safle Chwarel y Castell.

2.17 Mae nifer o aelwydydd yn meddiannu tir comin mewn gwerysll diawdurdod sy'n cael ei oddef ar dir sy'n ffinio â safle Comin Kingsmoor, Cilgeti.

2.18 Lle bo'n briodol, mae'r Cyngor yn archwilio dulliau o reoleiddio'r lleiniau hyn a sicrhau bod mecanweithiau iechyd a diogelwch digonol ar waith.

Safleoedd diawdurdod yn destun apêl cynllunio

2.19 Roedd dau safle yn Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn destun Apeliadau Cynllunio yn ystod cyfnod GTAA 2015. Cafodd apêl cynllunio yn erbyn gwrthod gosod carafán sefydlog, lleoli carafán deithiol ac ystafell ddydd/amlbwrpas, ynghyd â gwaith


⁶ Safle heb ei feddiannu ar adeg yr arolwg

⁷ Wrthi'n cael ei adeiladu ar adeg yr arolwg

tirwedd a mynediad, ei gwrthod gan yr Arolygiaeth Gynllunio ar safle ar dir ger fferm Wynd Hill, Maenorbŷr, Dinbych-y-pysgod⁸ ac fe'u tynnwyd oddi ar y safle wedi hynny.

2.20 Mae hysbysiad gorfodi ar dir yng nghyffiniau Maenorbŷr Newton wedi'i gadarnhau mewn apêl.

2.21 Dangosir isod fap o leoliad Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru, Ionawr 2019 (Ffynhonnell: Cyfrif Carafanau Sipsiwn a Theithwyr Llywodraeth Cymru, Ionawr 2019). Dengys y map fod y safleoedd presennol yn ne'r sir ar y cyfan.



Termau wedi'u cyfieithu:

As at January 2019 – Ym mis Ionawr 2019; Authorised Socially Rented – Wedi'i Rentu'n Gymdeithasol Awdurdodedig; Authorised Private – Preifat Awdurdodedig; Unauthorised – Anawdurdodedig; Local Authority Boundary – Ffin Awdurdod Lleol

⁸ Cyfeirnod apêl: APP/L9503/A/15/3029720.

Pennod Tri: Methodoleg

Cyfansoddiad grŵp llywio'r prosiect

3.1 Gwahoddwyd cynrychiolwyr o nifer o sefydliadau sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau i'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr yn Sir Benfro. Nid oedd pob cynrychiolydd yn gallu dod i gyfarfodydd y grŵp llywio, ond cawsant eu cynnwys drwy ddarparu gwybodaeth a chymorth ymarferol wrth ymgymryd ag elfen arolwg y prosiect, a chawsant eu gwahodd i wneud sylwadau ar gamau drafft y GTAA hwn. Roedd aelodaeth y grŵp llywio fel a ganlyn:

- Denise Barry - cynrychiolydd elusen gofrestredig 'Travelling Ahead'.
- Leanne Morgan - cynrychiolydd y gymuned Sipsiwn a Theithwyr
- Ricky Price - cynrychiolydd y gymuned Sipsiwn a Theithwyr
- Sara Morris, Rheolwr Cynlluniau Datblygu a Chadwraeth, Cyngor Sir Penfro
- Julie Kirk – Uwch Swyddog Cynllunio, Cyngor Sir Penfro
- Andrew Davies-Wrigley – Rheolwr y Strategaeth Dai a Thai Sector Preifat, Cyngor Sir Penfro
- Perry Bowen – Swyddog Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr, Cyngor Sir Penfro
- Nia Davies – Swyddog Cyswllt Cwsmeriaid, Gwasanaethau Tai, Cyngor Sir Penfro
- Rachel Knight, Swyddog Tai, Tîm Cyswllt Cwsmeriaid
- Martina Dunne – Pennaeth Cyfeiriad y Parc Cenedlaethol, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
- Y Cyng. Michelle Bateman – Aelod Cabinet dros Dai a Gwasanaethau Rheoleiddio, Cyngor Sir Penfro (a wasanaethwyd gynt gan y Cyng. Pat Davies)
- Y Cyng. Jon Harvey - Aelod Cabinet dros Gynllunio a Seilwaith, Cyngor Sir Penfro (a wasanaethwyd gynt gan y Cyng. Phil Baker)

Methodoleg yr astudiaeth

Ymgysylltu ag Awdurdodau Lleol eraill

3.2 Penderfynwyd yn gynnar yn y broses asesu y byddai'n well cynnal yr astudiaeth heb gydweithio ag awdurdodau cyfagos, a hynny am dri phrif reswm:

- Ychydig iawn o aelodau'r cymunedau Sipsiwn a Theithwyr yn Sir Benfro sy'n dilyn ffordd grwydrol o fyw⁹, gan leihau'r angen i gydweithio ag Awdurdodau cyfagos er mwyn deall symudiadau crwydrol aelodau'r gymuned;
- Arweiniodd natur sefydledig y cymunedau a'u cysylltiadau â gwasanaethau yn y sir at ddull mwy teilwredig o gynnal yr arolwg yn fewnol gan Gyngor Sir Penfro; a
- Byddai'n fwy cost-efeithiol ymgymryd â'r astudiaeth yn fewnol, yn hytrach na chomisiynu sefydliad allanol.


⁹ Fel y cadarnhawyd mewn astudiaethau blaenorol, yn 2010 a 2013 a 2015.

- 3.3 Fodd bynnag, er na chafodd yr astudiaeth ei chynnal ar y cyd â'r awdurdodau cyfagos - ymgynghorwyd ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro drwy gydol y broses ac roedd yn rhan o grŵp llywio'r prosiect.
- 3.4 Yn ystod yr astudiaeth, ymgynghorwyd â'r sefydliadau canlynol:
- Cyngor Sir Caerfyrddin
 - Cyngor Sir Ceredigion
 - Cymdeithas Gofal Sir Benfro

Atal cyfyngiadau rhag ymgysylltu ag ymatebwyr

- 3.5 Nododd y grŵp llywio mai ymgysylltu ag ymatebwyr – a thrwy hynny gael nifer uchel o ymatebion o ansawdd da – oedd yr elfen allweddol a ddylai arwain y dull a fabwysiadwyd ar gyfer yr astudiaeth. Yn wreiddiol, nododd y grŵp llywio nifer o gyfyngiadau a allai rwystro'r ymgysylltu:
- Yr anhawster o ran adnabod cyfeiriadau Sipsiwn a Theithwyr – yn arbennig preswylfeydd 'bricks a mortar';
 - Cyfraddau llythrennedd cymharol isel o fewn cymunedau Sipsiwn a Theithwyr;
 - Nam ar olwg a/neu glyw darpar ymatebwyr; a'r
 - Berthynas wael rhwng y Cyngor a rhai aelodau o'r gymuned.
- 3.6 Cafodd Cyngor Sir Penfro afael ar nifer o gyfeiriadau Sipsiwn a Theithwyr posibl o ymatebion i'w GTAA 2015, a'r rhestr aros am leiniau gwag, ond cymerwyd na fyddai pob cyfeiriad yn gywir, oherwydd oedran rhai cofnodion. Drwy gysylltu â sefydliadau cymorth lleol roedd Cyngor Sir Penfro yn gallu cynyddu maint a chywirdeb cyfeiriadau posibl yn ogystal â magu dirnadaeth o'r tu mewn i'r gymuned, ond deallwyd nad oedd y rhestr hon yn gynhwysfawr. Felly ystyriwyd bod defnyddio technegau cyhoeddusrwydd, gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol a mynediad at fideo ar-lein, ac annog sylw ar lafar drwy gydol y broses, yn hanfodol i lwyddiant yr astudiaeth.
- 3.7 Cytunodd y grŵp llywio y dylai unrhyw gyhoeddusrwydd esbonio dwy neges allweddol yn glir: sef y gallai cymryd rhan yn yr arolwg fod o fudd i ymatebwyr; a bod newidiadau deddfwriaethol diweddar yn ychwanegu at bwysigrwydd cynnal yr asesiad hwn. Ystyriwyd hefyd fod y cynnydd tuag at ddarparu lleiniau ychwanegol o fewn y sir i ddiwallu anghenion a nodwyd yn agwedd allweddol wrth annog cyfranogiad. Fel arall, roedd perygl y gallai ymatebwyr posibl fod yn amharod i ymateb i'r asesiad, ar ôl cymryd rhan mewn arolygon tebyg a gynhaliwyd gan yr Awdurdod Lleol yn 2010 a 2013 a 2015.

Ffigur 3.1: Llun o wefan y Cyngor



Termau wedi'u cyfieithu:

[Gypsy and Traveller Survey: Your Future Your Say](#); [Arolwg Sipsiwn a Theithwyr: Eich Dyfodol Eich Barn](#)

3.8 Er mwyn cyrraedd ystod eang o ymatebwyr, cynhaliodd y Cyngor Sir y cyhoeddusrwydd canlynol:

- Dosbarthwyd taflenni dwyieithog i'r rhestr o gyfeiriadau a safleoedd posibl. Argraffwyd taflenni ychwanegol fel y gellid eu dosbarthu yn ystod ymweliadau safle er mwyn annog cyhoeddusrwydd ar lafar (gweler Atodiad 1). Roedd y taflenni'n cynnwys rhifau ffôn cyswllt a chyfeiriad y wefan.
- Anfonwyd llythyrau i bob cyfeiriad a oedd yn hysbys i Gyngor Sir Penfro.
- Cynhaliwyd ymweliadau cyn yr arolwg hefyd i gyflwyno Swyddogion i'r gymuned ym mhob safle sy'n eiddo i'r Cyngor a phob safle preifat mwy o faint, ac i gynyddu dealltwriaeth o'r arolwg a'i bwysigrwydd. Gadawyd cardiau mewn cyfeiriadau i alluogi cysylltiad dilynol, ac i arolygon ffôn gael eu cynnal pe bai hynny'n fwy ffafriol.
- Cafodd tudalen we ddwyieithog ei chreu a'i chynnal ar wefan Cyngor Sir Penfro. Rhoddwyd enw parth syml iddi – <https://pembrokeshire.gov.uk/Gypsy-Traveller-Sites> – er mwyn ei gwneud hi'n hawdd dod o hyd iddi. Roedd y dudalen we yn cynnwys testun esboniadol ochr yn ochr â fideo, a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru, a oedd yn rhoi gwybodaeth am y GTAA (gweler ffigur 3.1 uchod). Dosbarthwyd datganiad i'r wasg i'r cyfryngau perthnasol, gan gynnwys y wasg leol; ac

- Fe gynigiodd aelodau o'r Gymuned Sipsiwn a Theithwyr yn y grŵp llywio drafod pwysigrwydd y GTAA gyda mynychwyr y Grŵp Merched Sipsiwn a Theithwyr (Mehefin 2019)
- Yn ogystal, cynigiwyd cymhelliant i gwblhau'r arolwg, sef tri chyfle i ennill taleb archfarchnad fel rhan o gystadleuaeth raffl.

Pryd y cynhaliwyd yr arolwg

- 3.9 Mis Mehefin a mis Gorffennaf 2019. Cynhaliwyd ymweliadau cyn yr arolwg yn ystod yr wythnos yn dechrau 10 Mehefin, a dechreuwyd arolygon o 18 Mehefin ac fe'u cwblhawyd erbyn 19 Gorffennaf. Cwblhawyd 118 o gyfweiliadau.
- 3.10 Oherwydd arolygon blaenorol yn 2010 a 2013 a 2015, gwyddys mai ychydig o aelodau o gymunedau Sipsiwn a Theithwyr yn Sir Benfro sy'n dilyn ffordd grwydrol o fyw. Am y rheswm hwn ni ystyriwyd bod amseriad yr arolwg o arwyddocâd arbennig, er bod Cyngor Sir Penfro yn awyddus i gwblhau'r arolwg cyn gwyliau haf yr ysgol, ac yn dilyn Ffair Geffylau Appleby. Cefnogwyd y dull hwn gan aelodau'r Gymuned ar y grŵp llywio.

Pwy gynhaliodd yr arolwg

- 3.11 Cynhaliwyd yr arolwg gan aelodau o staff Cyswllt Cwsmeriaid Adran Tai a Swyddogion Tai Cyngor Sir Penfro gyda chymorth gan Weithiwr Cymorth Cymdeithas Gofal Sir Penfro, am dri phrif reswm:
- Mae gan Gyngor Sir Penfro hanes sicr o ymgymryd â GTAA, gan ddod o hyd i ddata arolwg dibynadwy i gynhyrchu canlyniadau cadarn, credadwy;
 - Roedd Cyngor Sir Penfro am ddefnyddio'r cyfle i gryfhau'r berthynas rhyngddo ac aelodau'r gymuned drwy gyfarfyddiadau wyneb yn wyneb. Roedd aelodau'r Gymuned ar y grŵp llywio wedi ein hysbysu y dylai hyn fod yn ystyriaeth bwysig, gan y gallent 'roi wyneb i enw' a dwyn Cyngor Sir Penfro i gyfrif yn well; a
 - Gostyngwyd y costau sy'n gysylltiedig â'r asesiad.
- 3.12 Bu swyddogion o'r adrannau Tai a Chynllunio yn gweithio mewn partneriaeth drwy gydol y broses, gyda mewnbwn cynnar gan Swyddog Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr Cyngor Sir Penfro.
- 3.13 Nid oedd Swyddog Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr Cyngor Sir Penfro ar gael yn ystod cyfnodau arolwg mis Mehefin a mis Gorffennaf.
- 3.14 Ar ddau ddiwrnod ymweld â'r safle bu Cyngor Sir Penfro yn gweithio mewn partneriaeth â Chymdeithas Gofal Sir Benfro (PCS), sefydliad cymorth lleol sy'n cysylltu'n agos â chymunedau Sipsiwn a Theithwyr. Roedd gweithio ochr yn ochr â gweithwyr cymorth a oedd eisoes wedi sefydlu perthynas ragorol ag aelodau'r gymuned yn fuddiol; drwy gyflwyno cyfweiliadau i gyfranogwyr, gallai'r gweithwyr cymorth sicrhau ymddiriedaeth rhwng y ddwy ochr. Roedd hyn yn sicrhau bod yr ymatebwyr yn cymryd rhan i'r graddau mwyaf posibl, gan ychwanegu at faint ac ansawdd yr ymatebion. Drwy weithio gyda PCS, daeth Cyngor Sir Penfro i ddeall yr angen presennol yn dda, boed hwnnw oherwydd gorlenwi, gwerysll diawdurdod, twf teuluol neu wrthnawsedd diwylliannol.

Cyfweliadau ar y safle: y dull a fabwysiadwyd

- 3.15 Lle bo'n bosibl, cynhaliwyd cyfweliadau ar y safle, yn hytrach na thros y ffôn. Teimlwyd y byddai'r dull hwn yn caniatáu i gyfwelwyr fagu ymddiriedaeth ag ymatebwyr yn well, ac yn caniatáu i gyfwelwyr archwilio materion yn ymwneud â gwrthnawsedd diwylliannol yn well. Cynhaliwyd pedwar cyfweliad dros y ffôn, fel arfer oherwydd bod hyn yn gyfleus i'r ymatebydd neu oherwydd bod yr ymatebydd wedi cysylltu â Chyngor Sir Penfro fel hyn. Cynhaliwyd cyfweliad pellach yn Neuadd y Sir, Hwlfordd am yr un rhesymau.
- 3.16 Ceisiodd Cyngor Sir Penfro gynnal cyfweliadau mewn cyfeiriadau unigol hyd at dair gwaith. Yn gyffredinol, gwnaed trydydd ymweliad â chyfeiriadau ar ôl 5pm, gan dybio nad oedd yr ymatebwyr ar gael ar y ddau achlysur cyntaf oherwydd ymrwymadau yn ystod y dydd fel gwaith. Gadawyd cerdyn ar bob achlysur, pan oedd blwch post neu flwch llythyrau ar gael, gyda manylion cyswllt er mwyn gallu cysylltu yn uniongyrchol i drefnu ymweliad arall. Os na wnaethant gysylltu, gwnaed ymweliadau pellach a gadawyd cardiau nes bod tri ymgais wedi'u gwneud i gysylltu er mwyn cwblhau'r arolwg.
- 3.17 Lle roedd perthynas yn bodoli'n barod, gwnaeth cynrychiolydd o Gymdeithas Gofal Sir Benfro gyflwyniadau ar garreg y drws er mwyn magu ymddiriedaeth, a chynhaliwyd ymweliadau cyn yr arolwg hefyd. Cynhaliodd Swyddogion Cyswllt Cwsmeriaid Tai a Swyddog Tai sydd wrthi dros dro'n rheoli safleoedd Sipsiwn a Theithwyr y cyfweliadau gwirioneddol ym mhob achos heblaw dau. Yn yr achosion hyn, cynhaliwyd y cyfweliad gan un o swyddogion Cymdeithas Gofal Sir Benfro. Cynhaliwyd cyfweliadau gan swyddogion gan ddefnyddio ffurflenni copi caled a oedd yn gwella'r cyfathrebu llafar a'r broses o feithrin perthynas yn ystod cyfathrebu wyneb yn wyneb. Drwy lenwi'r ffurflen gyfweled ar gyfer yr ymatebydd, cafodd problemau posibl o ran anawsterau llythrennedd eu hosgoi.
- 3.18 Archwiliwyd yr achosion cynnar o wrthod ymgymryd â'r arolwg, ac yn aml roeddent oherwydd bod yr aelwyd wedi mynegi ei diffyg angen. Cafwyd achlysuron hefyd lle gwyddys bod y berthynas â Chyngor Sir Penfro yn sensitif a bod y gymuned mewn anghydfod gyda Chyngor Sir Penfro. Mewn un achos, gofynnwyd am gytundeb ysgrifenedig i Swyddogion ymweld â'r safle i gynnal yr arolwg. Gwrthodwyd caniatâd.

Rhestr wirio ymgysylltu

- 3.19 Mae'r tabl canlynol yn manylu ar gydymffurfiaid dull yr arolwg â rhestr wirio ymgysylltu Llywodraeth Cymru.¹⁰

Tabl 3.1: Rhestr wirio ymgysylltu (Yn parhau trosodd)

Eitem	Tasg	Sylw
1	Ymweld â phob aelwyd Sipsiwn a Theithwyr a nodwyd drwy'r broses dadansoddi data hyd at dair gwaith, os oes angen.	Tasg wedi'i chyflawni. Yn gyffredinol, cynhaliwyd trydydd ymweliadau ar ôl 5pm er mwyn cynyddu'r gyfradd ymateb.
2	Cyhoeddi manylion y broses GTAA, gan gynnwys manylion cyswllt i ganiatáu i	Cafodd manylion y broses GTAA, gan gynnwys manylion cyswllt, eu hysbysebu drwy daflen, ar bosteri

¹⁰ Wedi'i chynnwys yn y ddogfen ganllaw *Cynnal Asesiadau o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr*.

Eitem	Tasg	Sylw
	aelodau'r gymuned ofyn am gyfweiliad, ar wefan yr Awdurdod Lleol, gwefan Travellers' Times a chyhoeddiad World's Fair.	ac ar wefan Cyngor Sir Penfro. Dosbarthwyd datganiad i'r wasg hefyd i gyfryngau perthnasol, gan gynnwys y wasg leol.
3	Ymgynghori â sefydliadau cymorth perthnasol.	Tasg wedi'i chyflawni. Gwahoddwyd cynrychiolwyr o gymdeithas elusen Travelling Ahead i eistedd ar y grŵp llywio. Ymgynghorodd Cyngor Sir Penfro â Chymdeithas Gofal Sir Benfro er mwyn nodi cyfeiriadau Sipsiwn a Theithwyr posibl. Cynhaliodd Cyngor Sir Penfro lawer o'r cyfweiliadau ochr yn ochr â chynrychiolwyr o Gymdeithas Gofal Sir Benfro.
4	Datblygu rhestr aros Awdurdod Lleol ar gyfer lleiniau a thai, sy'n hygyrch ac yn cael ei chyfleu i aelodau'r gymuned.	Cymerwyd manylion gan ymatebwyr a nododd y gallent hwy neu bobl y maent yn eu hadnabod fod â diddordeb mewn ymuno â'r rhestri aros. Yn dilyn hynny, rhoddwyd ffurflenni cais i'r bobl â diddordeb mewn ymuno â'r rhestr aros a chynigiwyd cymorth iddynt eu llenwi.
5	Ymdrechu i gynnwys Sipsiwn a Theithwyr ar grŵp llywio prosiect GTAA.	Roedd tri chynrychiolydd o gymunedau Sipsiwn a Theithwyr yn eistedd ar y grŵp llywio.
6	Sicrhau bod manylion cyswllt a ddarperir i'r Awdurdod Lleol gan aelodau'r gymuned drwy broses yr arolwg yn cael eu dilyn a bod anghenion yn cael eu hasesu.	Tasg wedi'i chyflawni.
7	Ystyried cynnal digwyddiadau gwybodaeth GTAA ar y safle (neu gerllaw) i esbonio pam y dylai aelodau'r gymuned gymryd rhan ac annog preswylwyr y safle i ddod ag eraill nad ydynt efallai'n hysbys i'r Awdurdod Lleol.	Argymhellodd aelodau'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr ar y grŵp llywio inni beidio â chynnal digwyddiadau gwybodaeth gan y teimlwyd na fyddai llawer yn dod iddynt. Yn hytrach, argymhellwyd ein bod yn canolbwyntio ymdrechion ar nodi cyfeiriadau a chynnal ymweliadau safle. Rydym wedi dilyn y cyngor hwn

Newidiadau i'r holiadur cyffredinol

- 3.20 Cymerwyd cyfeiriadau i osgoi cyfrif dwbl. Am yr un rhesymau, cymerwyd cyfenwau mewn achosion lle'r oedd dwy aelwyd yn byw yn yr un cyfeiriad post, megis ar leiniau 'wedi'u rhannu'.
- 3.21 Drwy gymryd cyfeiriadau roedd Cyngor Sir Penfro hefyd yn teimlo y gallai gynllunio'r elfen leoliadol yn well o ran darparu safleoedd yn y dyfodol. Fodd bynnag, at ddibenion diogelu data, mae ymatebion wedi'u gwneud yn ddiennw. Cyflwynwyd cwestiynau ychwanegol ar yr holiadur cyffredinol ar gyfer GTAA 2019 fel rhan o'r broses ddysgu o arolygon blaenorol. Gofynnwyd i'r ymatebwyr ddarparu rhagor o wybodaeth am eu lleoliad dewisol yn y sir os oeddent yn ceisio symud o'u lleoliad presennol. Teimlir y byddai hyn yn helpu Cyngor Sir Penfro i ddeall yn well ymhle y gallai safleoedd newydd neu estyniadau i safleoedd presennol gael eu ffafrio ar draws y sir.

Pennod 4: Canfyddiadau'r arolwg

Cyfweliadau ag aelwydydd

4.1 Gellir dod o hyd i'r cofnod o'r cyfweliadau yn Atodiad 4.

Nifer yr aelwydydd wedi'u dadansoddi yn ôl math o lety

4.2 Gan ddefnyddio'r wybodaeth a oedd eisoes gan Gyngor Sir Penfro ac a ddarparwyd gan asiantaethau cefnogi, ynghyd â chyfeiriadau ychwanegol a gasglwyd yn ystod y gwaith arolwg, nododd yr astudiaeth 222 o aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr posibl yn y sir. O'r rhain, cafodd Cyngor Sir Penfro ymatebion i'r arolwg gan 118 o aelwydydd. Mae tabl 4.3 yn darparu rhesymau pam nad oedd cyswllt yr arolwg yn llwyddiannus ac mae'n cynnwys 31 o aelwydydd a nodwyd yn rhai nad ydynt yn Sipsiwn a Theithwyr.

Tabl 4.1: Nifer yr aelwydydd yn ôl math o lety

Math o lety	Nifer yr aelwydydd (cyfanswm) ¹¹	Nifer yr aelwydydd (ymatebwyr yn unig)
Safle preswyl yr Awdurdod Lleol	89	71
Safle tramwy'r Cyngor	1	1
Safle preifat	28	11
– gyda chaniatâd cynllunio	27	10
- heb ganiatâd cynllunio ¹²	1	1
– yn destun apêl	0	0
Gwersyll diawdurdod ¹³	2	1
'Brics a mortar'	64	34
– rhentu cymdeithasol	52	28
- rhentu preifat	1	1
- deiliadaeth anhysbys	11	5
– yn eiddo i berchenfeddianwyr	0	0
Hostel i'r digartref	0	0
Heb gartref sefydlog – yn teithio ar hyn o bryd	1	0
Cyfanswm	185	118

¹¹ Yr holl aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr a nodwyd, gan gynnwys gwrthodiadau

¹² Yn unol â hanes cynllunio'r safle.

¹³ Yn unol â diffiniad canllawiau Llywodraeth Cymru.

- 4.3 Mae 89 o'r 185 o aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr posibl ar safleoedd preswyl a gynhelir gan yr Awdurdod. Cafodd Cyngor Sir Penfro 71 o ymatebion o'r 89 o aelwydydd hyn (cyfradd ymateb o 79%). Mae un aelwyd arall ar safle tramwy o dan awdurdodaeth Cyngor Sir Penfro, ac ymatebodd yr aelwyd hon i'r arolwg.
- 4.4 Mae 28 o aelwydydd ar safleoedd sydd mewn perchnogaeth breifat (mewn rhai achosion, mae safleoedd preifat yn cynnwys mwy nag un aelwyd), er bod un o'r rhain heb fudd caniatâd cynllunio. Cafwyd ymatebion gan 11 o'r aelwydydd hyn.
- 4.5 Nodwyd bod dwy aelwyd yn wersylloedd diawdurdod. Cafodd Cyngor Sir Penfro ymatebion gan un o'r aelwydydd hyn.
- 4.6 Daeth Cyngor Sir Penfro o hyd i 95 o gyfeiriadau 'brics a mortar' posibl. Cafodd Cyngor Sir Penfro 33 o ymatebion wedi'u cwblhau, gwrthododd 25 arall gymryd rhan¹⁴ a dywedodd 30 aelwyd arall nad oeddent yn Sipsiwn na Theithwyr. O'r 25 cyfeiriad y gwrthododd eu haelwydydd gymryd rhan yn yr arolwg, efallai nad yw rhai ohonynt yn nodi eu bod yn Sipsiwn a Theithwyr ond ni ddywedon nhw mai hwn oedd y rheswm dros wrthod. Mae hyn yn adlewyrchu un o anawsterau adnabod aelodau'r gymuned mewn llety 'brics a mortar'.

Nifer yr aelwydydd wedi'u dadansoddi yn ôl ethnigrwydd

- 4.7 Roedd y 118 o aelwydydd a arolygwyd yn llwyddiannus yn Sir Benfro yn cynnwys 327 o unigolion, a rhoddodd 323 ohonynt wybodaeth am eu hethnigrwydd. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn bod rhai termau a oedd yn awgrymu cysylltiad diwylliannol â nomadiaeth, yn enwedig y term Sipsiwn, yn ddirfriadol, ac felly'n gwrthod disgrifio eu hethnigrwydd gan ddefnyddio termau o'r fath. Roedd ymatebwyr eraill yn gyfforddus â'u cysylltiadau diwylliannol â nomadiaeth ac yn hunan-briodoli eu hethnigrwydd gydag ymdeimlad o falchder.
- 4.8 Yn gyffredinol, gofynnodd cyfwelwyr i'r ymatebwyr sut y maent yn hunan-briodoli eu hethnigrwydd yn unol â geiriad yr arolwg; rhoddodd y cyfwelwyr opsiynau 'Romani', 'Teithwyr Gwyddelig', 'Teithwyr yr Oes Newydd', 'Siewmyn', 'Roma' ac 'arall' i ddewis o'u plith. Gofynnwyd i'r rhai a ddewisodd 'arall' nodi sut y byddent yn hunan-briodoli. Er gwaethaf cael opsiynau, dewisodd llawer o'r ymatebwyr hunan-briodoli yn eu geiriau eu hunain, gan ddefnyddio termau fel 'Romani Cymreig' a 'Theithwyr Cymreig', Gwyn - Prydeinig, neu Wyn - Prydeinig Cymreig neu yn syml Teithwyr Sipsiwn. Dylai'r opsiwn hwn, yn benodol, gael ei gydnabod yn asesiad yr arolwg a'i ychwanegu fel opsiwn ychwanegol i ganiatáu mwy o hunaniaeth a chydnabyddiaeth ddiwylliannol.
- 4.9 Mae tabl 4.2 a ffigur 4.1, drosodd, yn dangos dadansoddiad ethnig yr ymatebion. Pobl sy'n ffurfio rhan o aelwyd yr ymatebydd yw unigolion ychwanegol.


¹⁴ Gweler tabl 4.3 sy'n crynhoi'r rhesymau pam nad yw arolygon yn llwyddiannus.

Tabl 4.2: Nifer yr aelwydydd ac unigolion yn ôl ethnigrwydd

Ethnigrwydd	Nifer yr ymatebwyr 2019	Nifer yr unigolion ychwanegol 2019	Cyfanswm
'Romani' / 'Sipsiwn Romani' / 'Teithwyr Romani' / 'Romani Cymreig' / 'Romani Prydeinig'	30	48	78
'Teithwyr Seisnig'	1	0	1
'Teithwyr yr Oes Newydd'	1	4	5
Teithwyr Sipsiwn	16	30	46
'Siewmyn' / 'Siewmyn Prydeinig Cymreig'	2	3	5
'Sipsiwn Roma'	2	6	8
'Sipsiwn' / 'Sipsiwn Cymreig' / Sipsiwn Prydeinig Cymreig	39	74	113
'Teithwyr' / 'Teithwyr Cymreig' / Hen Deithwyr	6	10	16
Gwyn Prydeinig / Gwyn Prydeinig Cymreig	5	8	13
'Arall' / Dim ymateb	2	2	4
Heb fod yn Sipsiwn na Theithwyr ¹⁵	14	24	38
Cyfanswm	118	209	327

¹⁵ Roedd naill ai'r ymatebydd neu unigolion eraill o fewn yr aelwyd yn hunan-briodoli fel rhai heb fod yn Sipsiwn na Theithwyr.

Ffigur 4.1: Nifer yr aelwydydd ac unigolion yn ôl ethnigrwydd



- 4.10 O'r 118 aelwyd a ymatebodd, nododd 30 (25%) eu bod yn Romani neu'n amrywiad o hynny. Roedd y 61 aelwyd (51%) a nododd eu bod yn Sipsiwn Teithwyr, Sipsiwn Cymreig, Teithwyr neu Deithwyr Cymreig yn tueddu i rannu cysylltiadau teuluol cryf a/neu safleoedd gydag aelwydydd Romani. Gyda'i gilydd, mae'r grwpiau hyn, sydd wedi'u cysylltu gan gysylltiadau teuluol a/neu leoliad, yn 76% o'r holl ymatebwyr.
- 4.11 Ni nododd yr un o'r aelwydydd a roddodd ymatebion yn yr arolwg fod ganddynt ethnigrwydd Teithwyr Gwyddelig, er bod yna un ymateb Teithiwr Seisnig, ac un ymateb Teithiwr yr Oes Newydd.
- 4.12 Nid yw Cyngor Sir Penfro yn ymwybodol o unrhyw wersylloedd diawdurdod sy'n gysylltiedig â Theithwyr Newydd yn y sir.

Anawsterau a gafwyd wrth geisio cael gafael ar aelwydydd

- 4.13 Cysylltwyd â 229 o gyfeiriadau i gyd yn rhan o'r GTAA hwn. Roedd 222 o'r rhain yn gyfeiriadau yn Sir Benfro. Gwnaeth cyfanswm o 111 ymgais i gysylltu â chyfeiriadau arwain at beidio â chwblhau arolwg. Mae'r rhesymau dros beidio â chwblhau yn cynnwys gwrthod cynnal yr arolwg, methu cysylltu ag aelwydydd yn ystod tri ymweliad a phobl yn nodi eu hunain fel pobl heb fod yn Sipsiwn neu Deithwyr. Gwnaed trydydd ymgais i gynnal cyfweiliadau ar ôl 5pm mewn ymdrech i gyrraedd darpar ymatebwyr a oedd ag ymrwymadau yn ystod y dydd a darparwyd cardiau i gynorthwyo gyda chyswllt.
- 4.14 Roedd y rhesymau dros beidio â chwblhau arolygon yn amrywiol, fel y dangosir yn nhabl 4.3 isod.
- 4.3. Gwyddys bod Teithiwr Sipsiwn mewn anghydfod gyda Chyngor Sir Penfro, a phenderfynwyd peidio â mynd at y person hwn. Fodd bynnag, nodir ei fod mewn angen o fewn y GTAA hwn.

Tabl 4.3: Rhesymau a roddwyd dros gyfweiliad aflwyddiannus

Rheswm	Nifer yr achosion
Bodlon gyda llety / Dim angen	16
Ddim eisiau cymryd rhan	21
Dim amser	1
Ymweld dros dro yn unig	1
Wedi marw	2
Heb gysylltu â nhw (mewn anghydfod)	1
Neb gartref am 3 ymweliad, a cherdyn wedi'i adael ¹⁶ ,	22
Cyswllt post â chyfeiriadau y tu allan i'r sir – ni chafwyd ymateb	7
Neb gartref am 3 ymweliad a dim blwch post	1
Ddim yn Sipsiwn na Theithwyr	31
Cyfeiriad safle heb ei ganfod	6
Safle'n wag dros dro	2
Cyfanswm	111


Proffil demograffig y boblogaeth

4.15 Cafodd 158 o ddynion a 169 o fenywod eu cynnwys yn yr arolwg.

4.16 Dengys ffigur 4.2 broffil demograffig y boblogaeth Sipsiwn a Theithwyr o ran oedran. Mae'r siart yn dangos 'chwyddiant' o ran y boblogaeth tuag at oedrannau iau, a saith yw'r oedran mwyaf cyffredin ymhlith y boblogaeth iau. Ni ddarparwyd oedrannau ar gyfer 5 unigolyn.

¹⁶ Gadawyd cardiau yn y cyfeiriad i annog cysylltu â'r Awdurdod i gymryd rhan.

Ffigur 4.2: Proffil demograffig y boblogaeth Sipsiwn a Theithwyr



Termau wedi'u cyfieithu:

Age (years) – Oedran (blynnyddoedd); No. of people – Nifer o bobl

4.17 Serch hynny, mae'n amlwg, o ystyried mai oedran canolrifol y boblogaeth a arolygwyd yw 27 (a oedd yn 15 yn GTAA 2015), ei bod yn ddigon posibl fod twf y boblogaeth yn arafu ac yn cyfrannu at lai o angen am leiniau y tu hwnt i 2020 nag a amcangyfrifwyd yn flaenorol.

Addasrwydd llety presennol

Lefelau bodlonrwydd a grybwyllwyd

4.18 Mae tabl 4.4 yn dangos faint o ymatebwyr a grybwyllodd eu bod yn fodlon â'u llety. Yn gyffredinol, dywedodd 52% o'r ymatebwyr eu bod yn fodlon. Roedd lefelau boddhad yn arbennig o uchel ar safleoedd preifat, gyda 90% o'r ymatebwyr ar safleoedd preifat yn nodi eu bod yn fodlon. Y rheswm mwyaf cyffredin a roddwyd dros ddiffyg boddhad oedd yr angen canfyddedig i ddiweddarau neu atgyweirio cyfleusterau.

Tabl 4.4: Nifer yr aelwydydd sy'n fodlon â'u llety

Math o lety	Nifer yr aelwydydd sy'n fodlon â'u llety	Nifer yr aelwydydd sy'n anfodlon â'u llety	Canran yr aelwydydd sy'n fodlon â'u llety
Safle preswyl yr Awdurdod Lleol	31 ¹⁷	40	43%
Safle tramwy'r Cyngor			
Safle preifat	10	2	90%
– gyda chaniatâd cynllunio	9	1	90%
- heb ganiatâd cynllunio ¹⁸	1	1	50%
– yn destun apêl	–	–	–
Gwersyll diawdurdod ¹⁹	-	-	-
'Brics a morter'	19	14	61%
– rhentu cymdeithasol	19	13	60%
- rhentu preifat	0	1	0%
– yn eiddo i berchenfeddianwyr	–	–	–
Hostel i'r digartref	0	--	0.0
Heb gartref sefydlog – yn teithio ar hyn o bryd	0	--	0.0
Cyfanswm	60	56	52%

4.19 Roedd dwy aelwyd wedi nodi bod yn 'well ganddynt beidio â dweud' yn eu hymateb ynghylch eu bodlonrwydd. Roedd y ddwy'n byw mewn safle Awdurdod Lleol. Roedd

¹⁷ Yn cynnwys aelwyd fodlon ar gyfer llain dramwy.

¹⁸ Yn unol â hanes cynllunio'r safle.

¹⁹ Yn unol â'r diffiniad yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru.

Iefelau boddhad mewn llety 'brics a mortar' ac ar safleoedd preswyl yr Awdurdod Lleol yn 61% a 43% yn y drefn honno.

- 4.20 Mewn rhai achosion nododd ymatebwyr eu bod yn fodlon er y byddai eu hatebion i gwestiynau sy'n archwilio materion gorlenwi, deiliadaeth, addasrwydd llety ac ati'n awgrymu fel arall. Yn yr un modd, oherwydd bod deiliad tŷ yn fodlon nid oedd hynny'n golygu nad oedd yn nodi gwelliannau y gellid eu gwneud i'w llety.

Gorlenwi

- 4.21 Gofynnodd yr arolwg i ymatebwyr sy'n byw mewn carafanau a oedd digon o leoedd cysgu ar gyfer holl breswylwyr yr aelwyd. Nododd wyth ymatebydd nad oedd digon o fannau cysgu wedi'u darparu, a phob un o'r rhain yn Sir Benfro. Roedd gan ddau o'r ymatebwyr hyn le ar eu lleiniau am drelars ychwanegol. O'r chwe ymatebydd nad oedd ganddynt ddigon o fannau cysgu na digon o le ar gyfer trelars ychwanegol, roedd pedwar ar yr un safle preswyl a gynhelir gan yr Awdurdod, ac un yr un ar ddau safle arall a gynhelir gan yr Awdurdod.
- 4.22 Dywedodd ymatebwyr eraill, er bod digon o fannau cysgu yn eu llety, fod gorlenwi ar safleoedd yn dal i effeithio arnynt.
- 4.23 Crybwyllwyd gorlenwi, neu'r awydd am eiddo mwy o faint hefyd yn broblem mewn llety 'brics a mortar', gyda dau ymatebydd sy'n byw mewn tai yn dweud bod hyn yn broblem.

Gwelliannau neu newidiadau sy'n ofynnol

- 4.24 Mae tabl 4.5, isod yn rhestru'r gwelliannau a'r newidiadau y gellid eu gwneud i'w llety yn ôl yr ymatebwyr a nododd eu bod yn anfodlon. Roedd 57 o aelwydydd yn anfodlon, ac mewn sawl achos roedd mwy nag un rheswm am hyn.
- 4.25 Y mater mwyaf cyffredin a nodwyd oedd cynnal a chadw lleiniau ar safleoedd preswyl a gynhelir gan yr Awdurdod. Cyfeiriodd pedwar ymatebydd at gynnal a chadw seilwaith safle fel maes i'w wella. Roedd tri o'r rhain ar safle preswyl a gynhelir gan yr Awdurdod lle bu problemau o ran cynnal a chadw prif bibellau dŵr.
- 4.26 Nododd tri ymatebydd fod diffyg lle yn broblem, a'r cyfan mewn safleoedd preswyl a gynhelir gan yr Awdurdod. Roedd diffyg lle, neu orlenwi, yn broblem a nodwyd hefyd gan hanner yr ymatebwyr sy'n byw mewn gwersylloedd diawdurdod.

Tabl 4.5: Gwelliannau neu newidiadau sydd eu hangen i llety

Gwelliant neu newid sy'n ofynnol	Safle preswyl yr ALI	Brics a Morter, Rhentu Cymdeithasol	Brics a Morter, Rhentu Preifat	Safle Preifat gyda Chaniatâd cynllunio	Safle Preifat heb Ganiatâd cynllunio
Cynnal a chadw bloc amlbwrpas / cyfleusterau ymolchi. Angen adnewyddu / diweddarau. Diffyg glanweithdra	21				
Cynnal a chadw llain / iard / eiddo	11	3	1		
Slab yn ofynnol i aelod o'r teulu	1				
Diogelwch	2				
Gwell gennyf fy llain / darn o dir fy hun / maint yr eiddo / safle problemau gorlenwi	20	3		1	
Fermin ar y safle	1	1			
Diffyg parch gan ymwelwyr â'r safle	1				
Symud cyfarpar contractwr	1				
Methu cael caniatâd cynllunio ar gyfer safle newydd	1				
Lle chwarae i blant yn brin	1				
Perthynas â'r landlord		1			
Byddai'n well byw ar safle / yn agosach i gefnogaeth deuluol		5			
Byddai'n well cael eiddo mwy o faint / cyfleusterau gwell		1			1
Materion fforddiadwyedd		1			
Angen addasiadau / llety arbenigol		1			
Diffyg cyfleusterau glanweithdra					1

4.27 Roedd llawer o'r ymatebwyr a oedd yn anfodlon â'u llety yn crybwyll mwy nag un rheswm.

I bobl sy'n byw mewn safleoedd Awdurdod Lleol, cynnal a chadw cyfleusterau a gwaith moderneiddio sy'n ofynnol oedd y materion a godwyd amlaf, er bod llawer yn codi materion mewn perthynas â lleiniau a safleoedd bach, a mwyafrif y rhain yn awgrymu bod angen cynyddu maint y safle.

4.28 Roedd y materion sy'n wynebu'r rhai sy'n byw mewn llety 'brics a mortar' yn amrywio, er bod cynnal a chadw unwaith eto'n broblem gymharol gyffredin, a thri o'r ymatebwyr yn dweud y gellid ei wella. Dywedodd un ymatebydd hefyd ei fod yn anfodlon â'i llety oherwydd bod angen addasiadau arbenigol arno ar gyfer deiliaid tai ag anghenion arbennig.

- 4.29 Dywedodd pum ymatebydd sy'n byw mewn tai fod eu hanfodlonrwydd â'u llety yn deillio o fethu â dod o hyd i lain ar safle i fyw arni, neu ddymuniad i fyw'n agosach at deulu am resymau cymorth.
- 4.30 Mae tabl 4.6 (Atodiad 3) yn amlinellu lle mae'r arolwg wedi nodi anghenion a ffafriaeth am leiniau preswyl, ar wahân i'r rhai sy'n ymwneud â thwf teuluol. Bydd yr angen sy'n deillio o dwf teuluol yn cael ei drafod yn yr adran nesaf.
- 4.31 Mae'r arolwg wedi nodi bod angen 15 o leiniau newydd i gyd am resymau heblaw twf aelwydydd. Yn ogystal, mae un aelwyd ar safle y mae Cyngor Sir Penfro'n ceisio ei gau; ystyrir bod angen ar yr aelwyd honno ond ni ofynnwyd iddi gwblhau'r arolwg, oherwydd anghydfod parhaus gyda Chyngor Sir Penfro. Mae hyn yn rhoi cyfanswm o 16 aelwyd mewn angen oherwydd gorlenwi, safle diawdurdod neu wrthnawsedd diwylliannol. Mynegodd pob un o'r aelwydydd mewn angen ffafriaeth dros aros yn Sir Benfro.

Potensial ar gyfer datblygiadau safle preifat

- 4.32 Mae un o ymatebwyr yr arolwg yn berchen ar dir yn Sir Benfro yr hoffai iddo gael ei ystyried fel safle preifat posibl yn y dyfodol, er iddo sôn bod caniatâd cynllunio wedi'i wrthod, ac felly ystyrir mai prin yw'r potensial.
- 4.33 Ym mhob achos, anogir ymgeiswyr i gymryd rhan mewn trafodaethau cyn ymgeisio. Mae hon yn broses sy'n gysylltiedig â ffi (mae strwythur ffioedd Llywodraeth Cymru yn berthnasol) lle mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn rhoi cyngor ar debygolrwydd rhoi caniatâd cynllunio i gynnig datblygu penodol.

Twf aelwydydd

- 4.34 Mae twf aelwydydd yn arwain at yr angen cyffredinol am 18 llain dros y pum mlynedd nesaf. Mae angen tair o'r lleiniau hyn o fewn dwy flynedd, fel y dangosir yn Nhabl 4.7.

Tabl 4.7: Twf aelwydydd yn y dyfodol²⁰

Amserlen	Lleiniau sydd eu hangen oherwydd twf aelwydydd (ffigur cronus mewn cromfachau)	Cyfanswm y lleiniau sydd eu hangen ²¹	Cyfradd twf flynyddol sydd ei hangen
Nawr (2,019)	0	101	
O fewn blwyddyn (2,020)	1(1)	102	0.99%
1-2 flynedd (2020-21)	2(3)	104	1.96%
2-5 mlynedd (2021-24)	15 (18)	119	4.8%

²⁰ Amcangyfrifon yn seiliedig ar y gyfradd twf gyfartalog a nodwyd drwy'r arolwg mewn italic.

²¹ Cyfrifwyd fel cyfanswm y lleiniau preswyl presennol (101), ynghyd ag angen a nodwyd. Nid yw'r ffigurau'n ystyried unrhyw leiniau sydd eu hangen am resymau heblaw twf aelwydydd, megis gwrthnawsedd diwylliannol, gorlenwi neu drefniadau byw diawdurdod.

5-14 blynedd (2024 -2033 diwedd cyfnod y cynllun) ²²	65 (83)	184	6%
---	---------	-----	----

- 4.35 Er mwyn sicrhau bod y cyfnodau CDLI a ragwelir ar hyn o bryd ac yn y dyfodol yn cael eu cwmpasu, mae tabl 4.7 hefyd yn dangos yr angen a amcangyfrifir am leiniau hyd at 2033, sef dyddiad gorffen presennol CDLI2 ar gyfer Cyngor Sir Penfro. Ceir yr amcangyfrif ar gyfer diwedd cyfnod y cynllun (hyd at 2033) drwy gyfrifo'r gyfradd leol gyfartalog ar gyfer twf aelwydydd.
- 4.36 Y gyfradd twf a amcangyfrifir o 2024 i 2033 yw 6%. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn awgrymu defnyddio ffigur rhwng 1.5% a 3%. Defnyddiodd y GTAA blaenorol (2015) ffigur cyfradd twf gyfartalog yn deillio o ddata arolwg cynharach, sy'n cwmpasu cyfnod o 5 mlynedd, sef 2.59%. Fodd bynnag, gan nad oes tystiolaeth glir bellach ar gael i esbonio sut y cyfrifwyd y ffigur hwnnw, daethpwyd i'r casgliad y byddai'n annoeth ei ddefnyddio ar gyfer y GTAA olynol (2019). Yn hytrach, defnyddir pwynt canol Canllawiau Llywodraeth Cymru, sef 2.25%. Felly, defnyddiwyd hwn yn y cyfrifiad o angen a gyflwynir yn y dyfodol yn Nhabl 5.2. Rhaid cynnal GTAA newydd o fewn 5 mlynedd, a bydd hwn yn rhoi darlun cliriach o angen aelwydydd wrth symud ymlaen; fodd bynnag, bydd yr amcanestyniadau yn y ddogfen hon yn llywio adolygiad CDLI cyfredol CSP.
- 4.37 Nid yw'r amcangyfrifon yn Nhabl 4.7 yn ystyried unrhyw leiniau sydd eu hangen am resymau heblaw twf aelwydydd, ac maent yn cynnwys y ddarpariaeth bresennol o ran lleiniau.
- 4.38 Bydd GTAA y dyfodol yn darparu asesiad mwy cywir o'r angen wrth symud ymlaen, gan y gall amcanestyniadau hirdymor o'r fath fod yn ddiffygiol.

Pennod Pump: Asesu anghenion llety

Angen preswyl heb ei ddiwallu

Y cyflenwad preswyl presennol ac a gynlluniwyd

- 5.1 Mae Cyngor Sir Penfro'n cynnal 74 o leiniau parhaol, a phob un wedi'i meddiannu. Mae 27 o leiniau preifat awdurdodedig yn y sir, ac mae caniatâd wedi'i roi ar gyfer 5 llain breifat arall, ac mae 12 o leiniau Awdurdod Lleol sydd â chaniatâd cynllunio heb eu hadeiladu'n llawn eto.
- 5.2 Disgwylir hefyd i leiniau gael eu gadael yn ystod y cyfnod o bum mlynedd a gwmpesir gan yr asesiad hwn. I amcangyfrif sawl llain sy'n debygol o gael ei gadael, aeth Cyngor Sir Penfro ati i archwilio cofnodion tenantiaeth yn dyddio'n ôl i 6 Mehefin 2016. Yn y cyfnod hwn o dair blynedd, daeth 16 o denantiaethau ar leiniau i ben. Y rhesymau a

²² Cymerir mai hyn yw'r holl blant Sipsiwn a Theithwyr a fyddai'n 18 oed ymhen rhwng chwe blynedd a phedair blynedd ar ddeg h.y. sy'n 12 i 4 oed ar hyn o bryd. Nid yw'r ffigur hwn, o'r arolygon aelwydydd sydd wedi'u cwblhau, yn cyfrif am blant a phobl ifanc sy'n tyfu i fyny yn ffafrio llety brics a mortar.

gofnodwyd dros adael y llain yw ffoi, rhybudd wedi'i roi gan denant, terfynu gwirfoddol, marwolaeth a throsglwyddo.

- 5.3 Felly, gellir ystyried bod y gyfradd 'trosiant lleiniau' ddiweddar yn 5.3 llain bob blwyddyn. Ar y sail hon, gellir tybio y bydd 26.6 o leiniau'n dod ar gael yn ystod y 5 mlynedd nesaf, (wedi'i dalgrynnu i 26), a 5.3 yn flynyddol.

Galw preswyl nawr ac yn y dyfodol

- 5.4 Canfu'r arolwg fod angen cyfanswm o 38 o leiniau yn Sir Benfro dros y pum mlynedd nesaf, fel y dangosir yn Nhabl 5.1, a bod angen 20 o'r lleiniau hyn ar unwaith.

Tabl 5.1: Lleiniau sydd eu hangen dros y pum mlynedd nesaf

Rheswm	Amserlen (ffigur cronus mewn cromfachau)			
	Nawr	O fewn blwyddyn	1-2 flynedd	2-5 mlynedd
Twf teuluol	0	1	2 (3)	15 (18)
Trefniant byw diawdurdod	3 ²³	–	–	–
Gorlenwi ar leiniau	12	–	–	–
Tai Confensiynol (Gwrthnawsedd diwvlliannol / aorlenwi)	2	–	–	–
Aelwydydd newydd i gyrraedd	3	–	–	–
Cyfanswm	20	1 (21)	2 (23)	15 (38)

- 5.4 O'r 38 llain, mae angen 18 oherwydd twf teuluol, ac mae angen y gweddill nawr fel y dangosir yn y tabl uchod.

Tabl anghenion

Tabl 5.2: Tabl anghenion

Cyflenwad preswyl presennol	Nifer y lleiniau / (aelwydydd)
A. Lleiniau Awdurdod Lleol a feddiannwyd (aelwydydd)	74 ²⁴ / (77) ²⁵
B. Lleiniau preifat awdurdodedig a feddiannwyd (aelwydydd)	27 / (27) ²⁶

²³ Mae hyn yn cynnwys aelwyd sy'n byw mewn safle diawdurdod y tu allan i'r sir, ac aelwyd yn Waterloo.

²⁴ Fel y darparwyd gan Adran Tai CSP Awst 2019

²⁵ Mae'n cynnwys aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr lle cafwyd ymateb llwyddiannus a rhai a wrthododd, yn eithrio pobl a nododd nad Sipsiwn na Theithwyr mohonynt, ond mae'n cynnwys aelwydydd lle na roddwyd unrhyw ymateb neu nad oedd modd cysylltu â nhw mewn 3 ymweliad. Yn eithrio aelwydydd gorlawn sy'n cael eu cynnwys yn Rhes H, er mwyn osgoi cyfrif dwbl.

²⁶ Cymerwyd o fanylion heb eu cyhoeddi yng nghofnod yr ymweliad â'r safle.

Cyfanswm y lleiniau (aelwydydd)	101 / (104)	
Cyflenwad preswyl a gynlluniwyd	Nifer y lleiniau	
C. Lleiniau Awdurdod Lleol gwag a lleiniau preifat gwag sydd ar gael	1 ²⁷	
D. Lleiniau y disgwylir iddynt fod yn wag yn y dyfodol agos	5	
E. Lleiniau Awdurdod Lleol a phreifat newydd gyda chaniatâd cynllunio	19 ²⁸	
Cyfanswm	25	
Y galw preswyl presennol	Nifer y lleiniau	
F. Gwersylloedd diawdurdod	2 ²⁹	
G. Datblygiadau diawdurdod	1 ³⁰	
H. Lleiniau gorlawn	12	
I. Tai confensiynol	2	
J. Aelwydydd newydd i gyrraedd (rhestr aros am lain) -	3 ³¹	
Cyfanswm	20	
Aelwydydd presennol	Aelwydydd yn y dyfodol (ym mlwyddyn pump)	Aelwydydd yn y dyfodol (Cyfnod y Cynllun)
K. 119 ³²	133 ³³	163 ³⁴
L. Angen llain aelwyd ychwanegol	14	44
Angen heb ei ddiwallu	Angen yn codi	Angen wedi'i ddiwallu
M. Y galw preswyl presennol	20	–
N. Y galw preswyl yn y dyfodol (pum mlynedd)	14	–
O. Y galw preswyl yn y dyfodol (cyfnod y Cynllun)	44	–
P. Cyflenwad preswyl a gynlluniwyd	–	25
Q. Angen heb ei ddiwallu (pum mlynedd³⁵)	9 llain	

²⁷ Mae un llain LARS yn cael ei hadnewyddu ac wedi'i chynnwys fel un wag yn yr arolwg

²⁸ Caniatâd cynllunio ALI 12 (Cilgeti 17/0790/PA) 6 (caniatâd nas gweithredwyd) ac 1 iard siewmyn nas gweithredwyd²⁸

²⁹ Un llain wrth ymyl Chwarel y Castell, un garafân deithiol yn Lamber Forge. Mae'r iard siewmyn yn Lamber Forge yn ddiawdurdod ond nid yw'r ALI yn dymuno cymryd camau gorfodi dros yr elfen hon o'r cynllun.

³⁰ Nid yw'r awdurdod yn dymuno cymryd camau gorfodi yn Lamber Forge mewn perthynas â'r iard siewmyn.

³¹ Ar hyn o bryd mae tair aelwyd ar y rhestr aros am leiniau yn byw y tu allan i Sir Benfro, a gellir ystyried y 'disgwylir iddynt gyrraedd o rywle arall' (gweler canllawiau Llywodraeth Cymru 'Cynnal Asesiadau o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr, 2015' para 164. Fodd bynnag, ni chafwyd unrhyw ymatebion o ganlyniad i gyswllt â'r aelwydydd hyn. Maent yn cael eu cyfrif fel dull rhagofalus. Ni roddwyd gwybod i'r Awdurdod am unrhyw aelwydydd gan Awdurdodau Lleol eraill.

³² Cyfrifwyd fel aelwydydd awdurdodedig presennol ynghyd â'r galw preswyl presennol, heb y lleoedd gwag disgwylidig ar leiniau awdurdodedig. Sylwer: cyfrifwyd y ffigur 119 drwy grynhoi cyfanswm yr aelwydydd yn rhesi A a B, ychwanegu 20 llain arall (swm rhesi F i J yn gynhwysol) ac yna didynnu 5 llain y disgwylir iddynt ddod yn wag (rhes D). Mae rhes K yn ceisio darparu safle gwaelodlin aelwydydd, felly mae'n ddoeth defnyddio ffigurau aelwyd (yn hytrach na llain) lle mae'r rhain ar gael (h.y. yn rhesi A a B), er bod y ffigurau mewn manau eraill yn ymwneud â lleiniau oherwydd nad oedd ffigurau cywerth am aelwydydd.

³³ Cyfrifwyd gan ddefnyddio pwynt canol ystod Canllawiau Llywodraeth Cymru sef 2.25%

³⁴ Cyfrifwyd gan ddefnyddio pwynt canol ystod Canllawiau Llywodraeth Cymru sef 2.25% ar gyfer 119 o aelwydydd

³⁵ Cyfrifwyd drwy dynnu cyfanswm rhes D (5) o gyfanswm rhes N (14).

R. Angen heb ei ddiwallu (Cyfnod y Cynllun 2025 hyd at 2033 ³⁶) 30 llain

Cyfanswm y gofyniad lleiniau 2019 - 2033³⁷ 39 llain.

- 5.5 Gan ystyried y cyflenwad preswyl presennol a'r cyflenwad a gynlluniwyd, yn ogystal â'r galw preswyl presennol a'r galw a gynlluniwyd, disgwylir cyfanswm angen heb ei ddiwallu o 9 llain breswyl dros y pum mlynedd nesaf.
- 5.6 Mae hyn yn codi i 39 o leiniau preswyl a ragwelir, yn ystod cyfnod y Cynllun a gwmpesir gan adolygiad CDLI Cyngor Sir Penfro (hyd at 2033). Dyddiad gorffen adolygiad Cynllun Datblygu Lleol Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yw 2031³⁸
- 5.7 Fodd bynnag, mae mwyafrif y cynnydd hwn yn seiliedig ar dwf aelwydydd yn unig ac mae anawsterau cynhenid wrth ddefnyddio canlyniadau'r arolwg unigol hwn i ragweld twf mor bell ymlaen llaw. Bydd y gofyniad i ymgymryd â GTAA newydd o leiaf bob pum mlynedd yn arwain at asesiad llawer mwy cywir o'r angen yn ystod cyfnod y Cynllun.

Angen tramwy heb ei ddiwallu

Canfyddiadau'r arolwg

- 5.8 O'r 118 o aelwydydd a gymerodd ran yn yr arolwg, atebodd 110 y cwestiwn yn gofyn a oeddent yn credu bod angen mwy o safleoedd tramwy yng Nghymru. O'r 110 hynny, dywedodd 60 o ymatebwyr - 55% - bod angen mwy o safleoedd tramwy yng Nghymru. Dywedodd 50 o ymatebwyr - 45% - nad oes angen mwy o safleoedd tramwy yng Nghymru.
- 5.9 Yn anecdotaidd, diystyrododd rhai o'r ymatebwyr unrhyw angen posibl am safleoedd tramwy gan ddewis ateb 'nac oes' neu 'gwell gennyf beidio â dweud', neu yn wir dewis peidio ag ateb o gwbl, oherwydd eu bod yn wylriadwrus o aelodau cymunedau eraill yn defnyddio safleoedd tramwy posibl. Yn benodol, roedden nhw'n poeni am gymunedau eraill yn ymddwyn yn wrthgymdeithasol, naill ai'n uniongyrchol tuag at gymunedau Sipsiwn a Theithwyr yn Sir Benfro neu mewn ffordd anuniongyrchol a allai faeddu enw da'r holl Sipsiwn a Theithwyr yn yr ardal. Mae'n bosibl bod yr amharodrwydd hwn i nodi gwir angen wedi cam-ystumio'r canlyniadau.
- 5.10 Wedi dweud hynny, mae'n amlwg hefyd nad oedd mwyafrif helaeth yr ymatebwyr a ddywedodd fod angen mwy o safleoedd tramwy - sef 56 o'r cyfanswm o 60 - eu hunain wedi teithio'n ddiweddar, ac felly efallai nad oes ganddynt fewnwelediad cyfredol i'r angen nas diwallwyd am safleoedd tramwy. Fel arall, efallai bod y diffyg safleoedd

³⁶ Cyfrifwyd angen net ychwanegol o ddiwedd blwyddyn 5 i ddiwedd cyfnod y cynllun, 2033 = naw mlynedd ychwanegol ar dwf blynyddol o 2.25%.

³⁷ Cyfrifwyd drwy ychwanegu rhes Q (9) at res R (30)

³⁸ Mae CDLI APCAP yn cael ei adolygu ar hyn o bryd. Mae'r Awdurdod yn paratoui Cynllun newydd y bydd ei gyfnod Cynllun yn estyn i 2031

tramwy presennol wedi dylanwadu ar eu penderfyniad i beidio â theithio. Efallai y bydd angen mwy o ymchwil i natur y berthynas achosol hon.

- 5.11 Gellid rhoi mwy o bwys i'r ymatebion a roddwyd gan yr aelodau hynny o'r Gymuned sydd wedi teithio'n ddiweddar. Dywedodd 12 o 118 o ymatebwyr yr arolwg eu bod wedi teithio o fewn y flwyddyn ddiwethaf. Dengys tabl 5.3 sut yr ymatebodd yr aelodau hyn o'r Gymuned sydd wedi teithio'n ddiweddar.

Tabl 5.3: Barn yr ymatebwyr am yr angen am safleoedd tramwy

Ymatebydd	Oes angen mwy o safleoedd tramwy yng Nghymru?			
	Oes	Nac oes	Gwell gennyf beidio â dweud	Dim ateb wedi'i roi
Yr holl ymatebwyr	60	50	8	0
Ymatebwyr sydd wedi bod yn teithio o fewn y flwyddyn ddiwethaf	4	7	1	0

- 5.12 O'r 12 o ymatebwyr arolwg sydd wedi teithio yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, dywedodd 7 – sef 62% - **nad oes** angen mwy o safleoedd tramwy yng Nghymru. Mae hwn yn fwyafrif clir, er bod y sampl yn fach.
- 5.13 Rhoddodd 9 o'r 12 ymatebydd sydd wedi teithio yn ystod y flwyddyn ddiwethaf wybodaeth am ba Awdurdodau y buont yn gwersylla ynndynt, wedi'i chyfrif yn Nhabl 5.4 ochr yn ochr â barn yr holl ymatebwyr ynghylch y lleoliad gorau i safleoedd tramwy.

Tabl 5.4: Barn yr ymatebwyr ar leoliadau safleoedd tramwy posibl

LLEOLIAD	YMHLE MAE ANGEN SAFLEOEDD – BARN YR HOLL YMATEBWYR	YMHLE MAE ANGEN SAFLEOEDD - BARN YR YMATEBWYR SYDD WEDI TEITHIO O FEWN Y FLWYDDYN DDIWETHAF	YMHLE MAE'R YMATEBWYR SYDD WEDI TEITHIO O FEWN Y FLWYDDYN DDIWETHAF WEDI GWERSYLLA
LLANELLI	2		1
SUSSEX			1
GOGLEDD CYMRU	1	1	2

LLANGFNI			1
MACHYNLLETH, ABERYSTWYTH, ABERTEIFI.			1
BANGOR			1
LLOEGR			1
ABERTAWA	4	1	1
PEN-Y-BONT AR OGWR	2	1	
CAERDYDD	5	1	
CASNEWYDD	1	1	
SIR BENFRO	15	1	
Y TU ALLAN I SIR BENFRO	2		
DDIM YN GWYBOD	11		
SIR GAERFYRDDIN	2		
CASTELL-NEDD	1		
YN AGOS I'R YSGOLION	1		
HEB ATEB	5		3
CYMRU YN GYFFREDINOL	18	1	

5.14 Dengys tabl 5.4 fod 15 o ymatebwyr wedi awgrymu bod angen safle tramwy yn Sir Benfro. Dim ond un o'r ymatebion hyn oedd gan berson a oedd wedi teithio o fewn y flwyddyn ddiwethaf. Gellir gweld nad oedd unrhyw ymatebwyr yn nodi eu bod wedi gwersylla yn Sir Benfro o fewn y flwyddyn ddiwethaf.

Rhagor o dystiolaeth

- 5.15 Bydd Cyngor Sir Penfro yn ceisio cryfhau'r dystiolaeth o angen am safleoedd tramwy a ganfuwyd drwy'r broses GTAA - nad yw'n arbennig o gadarn ar hyn o bryd, oherwydd y cyfyngiadau a amlinellir - drwy ddadansoddi tystiolaeth ychwanegol. Mae Cyngor Sir Penfro wedi archwilio canlyniadau GTAA a gyhoeddwyd gan Awdurdodau eraill ac wedi canfod mai dim ond dau ymatebydd Sipsiwn a Theithwyr a nododd yn benodol fod angen safle tramwy yn Sir Benfro. Nid ystyrir bod hyn yn darparu digon o angen i ddarparu safle yn Sir Benfro. Fodd bynnag, bydd yr Awdurdod yn parhau i archwilio canlyniadau GTAA diweddaraf Awdurdodau eraill i weld a ydynt wedi nodi angen tramwy yn Sir Benfro.
- 5.16 Mae'n debyg nad oes digon o leiniau tramwy a/neu fannau aros dros dro wedi'u darparu o fewn y sir, ond heb ymchwil pellach - gan gynnwys yr hyn a wneir gan Awdurdodau eraill ac a rennir fel rhan o'r broses GTAA - mae'n anodd mesur lefel yr angen.
- 5.17 Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu system cyfrif carafanau ar-lein sy'n fodd i Awdurdodau Lleol gofnodi gweryslyoedd diawdurdod wrth iddynt godi a chofnodi safleoedd diawdurdod. Gweithredwyd y systemau cyfrif carafanau newydd a thraddodiadol ar yr un pryd ers mis Gorffennaf 2016 ac mae cysoni parhaus yn digwydd

i sicrhau bod data cadarn yn cael ei gofnodi yn y system newydd. Disgwylir yr wybodaeth hon.

Pennod Chwech: Casgliadau ac argymhellion

- 6.1 O'i chymharu â Chymru gyfan, mae gan Sir Benfro boblogaeth Sipsiwn a Theithwyr breswyl gymharol fawr, fel y dangosir gan asesiadau anghenion llety blaenorol, arolygon cyfrif carafanau a Chyfrifiad 2011.
- 6.2 Cynhaliwyd arolygon ym mis Mehefin a mis Gorffennaf 2019 ar gyfer yr asesiad hwn o anghenion llety, yn dilyn methodoleg y cytunwyd arni gan y Grŵp Llywio. Roedd yr arolygon yn cynnwys preswylwyr ar safleoedd preswyl yr Awdurdod Lleol; llain dramwy'r Awdurdod Lleol; safleoedd preifat; gwerysilloedd a datblygiadau diawdurdod; a thenantiaid mewn llety 'bricks a mortar'.
- 6.3 Cysylltodd Cyngor Sir Penfro â thros 200 o gyfeiriadau aelwyd fel rhan o'r GTAA. Cwblhaodd 118 o aelwydydd yr arolwg, ac roedd 70 o aelwydydd naill ai wedi gwrthod cymryd rhan neu nid oedd modd cysylltu â nhw yn ystod yr arolwg. Mae hyn yn darparu cyfanswm o 188 o aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr, gan ddarparu cyfradd ymateb o 63%. (Cadarnhaodd 31 aelwyd arall nad oeddent yn rhan o'r gymuned Sipsiwn na Theithwyr. Gellir dod o hyd i resymau eraill dros beidio â chymryd rhan yn yr arolwg yn nhabl 4.3).
- 6.4 **Mae angen heb ei ddiwallu am 9 o leiniau preswyl, dros y pum mlynedd nesaf (erbyn diwedd 2024) wedi'i nodi yn yr asesiad hwn. Dros gyfnodau Cynllun CDLI 2 ar gyfer CSP ac APCAP (hyd at ddiwedd 2033 a 2031 yn y drefn honno) mae hyn yn cyfateb i angen cyffredinol am 39 o leiniau preswyl. (Yr angen net ychwanegol o 2025 i 2033 yw 30 llain).**
- 6.5 Yn gyffredinol, nododd ymatebwyr i'r arolwg fod angen mwy o leiniau a safleoedd tramwy yng Nghymru. Mae Cyngor Sir Penfro o'r farn nad yw'r cwestiynau o fewn yr arolwg ynghylch yr angen am leiniau/safleoedd tramwy yn ddigon cynhwysfawr i ganfod canlyniadau ystyrlon ar gyfer yr agwedd hon ar yr arolwg. Cred y dylid gwella'r cwestiynau hyn ar gyfer arolygon yn y dyfodol. Bydd y pryderon hyn yn cael eu bwydo'n ôl i Lywodraeth Cymru.

Camau nesaf

- 6.6 Mae Cyngor Sir Penfro wedi dadansoddi'r ymatebion a nododd fod angen llety ychwanegol. I helpu i gynllunio darpariaeth y dyfodol, gofynnwyd i ymatebwyr i ba ardal yn Sir Benfro yr hoffent symud. Mae'r lleoliadau cyffredinol a nodwyd gan bobl mewn angen yn gyffredinol yn ne'r sir, a Hwlfordd yw'r lleoliad pellaf i'r gogledd.
- 6.7 Mae'r ardaloedd hyn yn adlewyrchu'r lleoliadau cyffredinol y mae preswylwyr wedi mynegi awydd i fyw ynddynt. Er bod cysylltiadau teuluol rhwng ardaloedd, fel arfer mae gan breswylwyr gysylltiad agosach a ffafiaeth i fyw o fewn un ardal, sydd fel arfer yn gysylltiedig â safle presennol yr Awdurdod Lleol yn yr ardal honno. Awgrymodd yr holl ymatebwyr a oedd yn bwriadu symud o fewn ardal yr Awdurdod Lleol lleoliadau yn ne'r sir ac mor bell i'r gogledd â Hwlfordd.

Tabl 5.5 Lleoliad a Ffafirir gan Aelwydydd sy'n bwriadu symud, ac aros yn Sir Benfro

LLEOLIAD CYFFREDINOL	NIFER YR AELWYDYDD MEWN ANGEN (POB RHESWM)
CILGETI (GAN GYNNWYS KINGSMOOR)	4
CHWAREL Y CASTELL CIL-MAEN	1
HWLFFORDD	4
DE SIR BENFRO	2
SIR BENFRO	2
MAENORBŶR	1
PENFRO / DOC PENFRO	2
SAGESTON	1
CYFANSWM	17

- 6.8 Er mwyn mynd i'r afael â'r angen yn ardal Cilgeti, mae Cyngor Sir Penfro wedi nodi dyraniad ar gyfer 15 llain fel estyniad i safle Comin Kingsmoor o fewn ei Gynllun Datblygu Lleol ac mae caniatâd cynllunio wedi'i roi ar gyfer 12 llain wedi hynny. Byddai darparu lleiniau ychwanegol yn yr ardal hon yn bodloni cyfran sylweddol o'r angen presennol a nodwyd.
- 6.9 Yn ogystal â bwrw ymlaen â dyraniad Comin Kingsmoor, dros y flwyddyn nesaf, bydd yr Awdurdod Lleol yn ystyried posibilrwydd darparu nifer o safleoedd llai o faint i ddiwallu'r angen a nodwyd yn yr adroddiad hwn. Mae arfarniadau system gwybodaeth ddaearyddol (GIS) desg o dir sy'n eiddo i'r Cyngor eisoes wedi digwydd. Bydd Cyngor Sir Penfro hefyd yn archwilio canlyniadau'r arolygon o safleoedd preifat yn ofalus ac yn archwilio a oes unrhyw botensial i ehangu safleoedd preifat presennol. Lle nodwyd gwrsylloedd diawdurdod a datblygiadau diawdurdod, bydd swyddogion yn ceisio gweithio gyda phreswylwyr i wneud cais am ganiatâd cynllunio a rheoleiddio'r safle (lle bo hynny'n briodol). Mae trafodaethau cyn ymgeisio eisoes yn cael eu cynnal mewn rhai achosion.
- 6.10 Mae gan CSP ac APCAP bolisiâu sy'n caniatáu i safleoedd preifat gael eu datblygu lle maent yn bodloni meini prawf penodol. Mae mwyafrif helaeth y safleoedd presennol y tu allan i Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro; dim ond un safle preifat gyda chaniatâd cynllunio sy'n bodoli o fewn y Parc Cenedlaethol ar hyn o bryd.
- 6.11 Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae nifer sylweddol o safleoedd preifat wedi cael caniatâd cynllunio o dan y fframwaith polisi hwn. Yn anochel, mae materion sy'n ymwneud â'r dirwedd yn fwy o rwystr o fewn y Parc Cenedlaethol nag y tu allan iddo.
- 6.12 Bydd cynnydd o ran cyflawni er mwyn diwallu'r angen a nodwyd yn yr adroddiad hwn yn destun adroddiad blynyddol yn Adroddiadau Monitro Blynyddol CDLI CSP ac APCAP, sydd ar gael i'r cyhoedd.
- 6.13 Bydd CSP yn parhau i fonitro achosion o wersylloedd diawdurdod a bydd yn adolygu data a ddarperir o gronfa ddata ganolog y Cyfrif Carafanau yn ystod oes y GTAA hwn i ganfod a oes tystiolaeth o angen am safleoedd tramwy a/neu fannau aros dros dro ac ymhle y dylid gosod y rhain.

Atodiad I: Cwestiynau Ychwanegol yr Arolwg

1. Ychwanegwyd cwestiwn atodol i C2 at yr holiadur.

Os nododd yr ymatebwyr eu bod yn bwriadu symud o fewn yr Awdurdod Lleol, gofynnwyd y cwestiwn ychwanegol canlynol iddynt.

C2a I ba ardal ydych chi'n bwriadu symud?


2. Ychwanegwyd cwestiwn atodol i adran D at yr holiadur.

Os nododd yr ymatebwyr fod aelod o'r teulu yn debygol o fod eisiau symud i'w gartref ei hun yn y 5 mlynedd nesaf, a nodwyd bod hyn o fewn yr Awdurdod Lleol hwn, gofynnwyd y cwestiwn canlynol iddynt.

D2a I ba ardal ydych chi'n bwriadu symud?

Atodiad 2: Deunyddiau cyhoeddusrwydd

Pembrokeshire County Council



Calling card |


You were not at home when we called on

..... at.....

So that we could go through the Gypsy Traveller Accommodation Assessment with you:

Please let us know when would be a good time for us to call again, or if you would prefer, we can complete the Assessment over the phone with you.

07798870234.



Newsroom / Surveys to Take Place of Gypsies and Travellers' Accommodation Needs

Newsroom

Surveys to Take Place of Gypsies and Travellers' Accommodation Needs

If you're a member of a local Gypsy and Traveller community, Pembrokeshire County Council would like to hear from you about your accommodation needs.

The County Council must make a regular assessment of Gypsies' and Travellers' accommodation needs every few years and report the findings back to the Welsh Government.

The information will be used to help to plan for future accommodation provision.

The Council will be undertaking surveys during June and July and wishes to speak to as many local members of the Gypsy and Traveller communities as possible - including those living in houses as well as caravans or mobile accommodation.

Those who would like to take part can contact the County Council by

- phoning the Housing Customer Liaison Team directly on 07798 870234.
- phoning 01437 764551 and requesting a call back
- emailing housingCLO@pembrokeshire.gov.uk
- or for more information please go to: www.pembrokeshire.gov.uk/Gypsy-Traveller-Sites



Termau wedi'u cyfieithu: Calling Card – Cerdyn Galw; Newsroom – Ystafell newyddion



Gypsy and Traveller Survey Your Future, Your Say

Pembrokeshire County Council is visiting Gypsy, Traveller and Travelling Showpeople communities in June and July. We will be asking whether you or your family need a residential pitch, house or transit site. A new Welsh law means we must help meet your needs.

For more information, please get in touch:



www.pembrokeshire.gov.uk/Gypsy-Traveller-Sites



housingCLO@pembrokeshire.gov.uk



07798870234



Mae cyfieithiad Cymraeg ar y dudalen nesaf:



Arolwg Sipsiwn a Theithwyr Eich Dyfodol, Eich Llais Chi

Bydd Cyngor Sir Penfro yn ymweld â chymunedau o Sipsiwn, Teithwyr a Gweithwyr Sioeau ar Daith ym mis Mehefin ac Gorffennaf. Byddwn yn gofyn i chi a oes angen pitch preswyl, ty neu safle tramwy (transit site) arnoch chi neu eich teulu. Mae cyfraith newydd yng Nghymru yn golygu bod rhaid i ni helpu i ymateb ar gyfer eich anghenion.

Am fwy o wybo aeth, cysylltwch:



<https://www.sir-benfro.gov.uk/safleoedd-teithwyr-sipsiwn>



housingCLO@pembrokeshire.gov.uk



07798870234



Atodiad 3: Tabl 4.6 Dyheadau Llety Aelwydydd – anghenion a ffafriaeth a nodwyd.

Rhif Cofnodi Ymweliad	Llety Presennol	Ymatebydd yn fodlon?	Rheswm dros fyw yn y llety	Ymatebydd yn bwriadu symud i lety arall?	Sylwadau (crynodeb o'r ymatebion perthnasol)	Angen neu ffafriaeth?
1	LARS	Nac ydy	Cysylltiadau lleol (teulu neu waith)	Nac ydy	Nid yw'r ymatebydd yn fodlon â'i lety, oherwydd yr angen i ddiweddarau a/neu wella cyfleusterau. Hoffai slab ar gyfer ei fab.	Ffaf.
5	LARS	Nac ydy	Cysylltiadau lleol (teulu neu waith)	Nac ydy	Nid yw'r ymatebydd yn fodlon â'i lety, oherwydd yr angen i ddiweddarau a/neu wella cyfleusterau.	Ffaf.
7	LARS	Nac ydy	Cysylltiadau lleol (teulu neu waith)	Nac ydy	Nid yw'r ymatebydd yn fodlon â'i lety, oherwydd yr angen i ddiweddarau a/neu wella cyfleusterau.	Ffaf.
8	LARS	Nac ydy	Cysylltiadau lleol (teulu neu waith)	Nac ydy	Nid yw'r ymatebydd yn fodlon â'i lety, oherwydd yr angen i ddiweddarau a/neu wella cyfleusterau.	Ffaf.
9	LARS	Nac ydy	Cysylltiadau lleol (teulu neu waith)	Nac ydy	Mae'r ymatebydd yn nodi nad oes digon o le i gysgu o fewn y garafán ac y bydd angen aelwyd newydd ymhen 2-5 mlynedd. Mae hwn yn angen sy'n seiliedig ar dwf aelwyd.	gweler twf aelwydydd
16	LARS	Ydy	Cysylltiadau lleol (teulu neu waith); Ger ysbyty lleol i blant	Nac ydy	Mae'r ymatebydd yn fodlon ar y llety ac mae ganddo lety digonol, ond hoffai brynu tir i fyw arno.	Ffaf.
17	LARS	Nac ydy	Cysylltiadau lleol (teulu neu waith)	Nac ydy	Heb fod yn fodlon ar y llety, hoffai safle sydd i deuluoedd yn unig. Yn nodi nad oes digon o le cysgu er nad oes unrhyw aelwydydd oedolion eraill yn y llety hwn.	Ffaf.

Rhif Cofnodi Ymweliad	Llety Presennol	Ymatebydd yn fodlon?	Rheswm dros fyw yn y llety	Ymatebydd yn bwriadu symud i lety arall?	Sylwadau (crynodeb o'r ymatebion perthnasol)	Angen neu ffafiaeth?
21	LARS	Nac ydy	Cysylltiadau lleol (teulu neu waith)	Ydy	Mae'r ymatebydd yn byw ar lain orlawn gyda llety wedi'i rannu	Angen.
22	LARS	Nac ydy	Cysylltiadau lleol (teulu neu waith); dim llain awdurdodedig amgen	Ydy	Mae'r ymatebydd hwn yn rhannu llety ar lain orlawn .	Angen.
27	LARS	Nac ydy	Cysylltiadau lleol (teulu neu waith)	Ydy	Mae'r ymatebydd yn anfodlon ar ei lety oherwydd diffyg manau cysgu.	Angen.
